Utrecht University Library
Partner in Science
Universiteit Utrecht

Chwedlau gwerin Cymru

https://hdl.handle.net/1874/379497

CHWEDLAU GWERIN CYMRU

By WILLIAM ROWLANDS

KEL
67
EL
2
3R
C

Versailles

VAN HAMEL
479

E DONATIONE

A. G. van HAMEL

PROFESSORIS
ORDINARII IN
ACADEMIA
RHENO-TRAIECTINA
1923—1946

3615 FW Row 1

13.67

Y FÔR-FORWYN

RIJKSUNIVERSITEIT UTRECHT
1554 5167

3615 F. W. Row. 1

CHWEDLAU GWERIN CYMRU

WEDI EU DETHOL A'U HADDASU

GAN

WILLIAM ROWLANDS, M.A.
YSGOL RAMADEG, ABERTAWE



Instituut voor
Keltische taal – en letterkunde
der Rijksuniversiteit te Utrecht

RHYDYCHEN
YNG NGWASG Y BRIFYSGOL
1923

Instituut voor
Keltische taal—en letterkunde
der Rijksuniversiteit te Utrecht

GWASG PRIFYSGOL RHYDYCHEN
Llundain Edinburgh Glasgow Copenhagen
New York Toronto Melbourne Cape Town
Bombay Calcutta Madras Shanghai
HUMPHREY MILFORD
Cyhoeddwr i'r Brifysgol

vervallen

Printed in England

RHAGAIR

YSGRIFENNWYD y chwedlau hyn ar gyfer plant o ddeuddeg i bedair ar ddeg oed. Gwnaed ymdrech arbennig i gadw'r gystrawen yn syml, ac i ysgrifennu brawddegau byrion er mwyn y plant sy'n fwy cynefin â Saesneg na Chymraeg.

Ychydig o gyfle a gaiff plant Cymru i ddarllen hen chwedlau'r werin yn y famiaith. Y mae bron y cwbl o'r rhain wedi ymddangos eisoes yn Saesneg, ac ymgais yw hon i roi'r chwedlau mewn diwyg Gymraeg syml. Ni cheir yma ddim ond ychydig iawn o chwedlau Tylwyth Teg Cymru: dewiswyd yn unig y rhai byrraf a'r rhai mwyaf diddorol i blant. Os caiff y rhain dderbyniad, bwriedir ysgrifennu cyfrol arall, yn cynnwys chwedlau hwy, a cheisio felly ennyn serch y plant yn nhraddodiadau Cymru yn iaith y wlad.

Cafwyd defnyddiau un neu ddwy o'r chwedlau o draddodiadau a geir mewn hen gylchgronau a hen lyfrau, megis *Cambrian Superstitions*, Howells; ond caed y mwyafrif o *Celtic Folklore* Sir J. Rhys, a dymunaf ddiolch i Wasg Rhydychen am ganiatad i ddefnyddio'r llyfr, ac am bob hwylustod ynglyn ag argraffu'r rhain. Er nad yw'r chwedlau i gyd fel y'u ceir yn *Celtic Folklore*, nid oes dim ynddynt nad yw'n seiliedig ar draddodiad. Ceisiwyd eu hadrodd yn syml fel y gall pob plentyn a fedr ddarllen Cymraeg eu deall a'u mwynhau. Hyderaf y caiff y llyfr groeso ymhob ysgol yng Nghymru.

CYNNWYS

		Tud.
I.	Y Fôr-forwyn	9
II.	Y Bachgen a'r Cawr	13
III.	Y Telynor	17
IV.	Y Blwch Eli	20
V.	Yr Efeilliaid	25
VI.	Mab Llech y Deri	28
VII.	Mab yr Ystrad	32
VIII.	Guto Bach	37
IX.	Nant yr Ellyllon	40
X.	Rhys a Llywelyn	43
XI.	Llyn Tegid	45
XII.	Pali Glan Teifi	48
XIII.	Sion Siencyn	51
XIV.	Y Gist Aur	53
XV.	Hen Wraig Hafod Rugog	56
XVI.	Y Gors Goch	58
XVII.	Ianto	60
XVIII.	March Amheirchion	63
XIX.	Y Marchlyn Mawr	65
XX.	Rhita Gawr	67

I

Y FÔR-FORWYN

UN bore braf ym mis Medi ers llawer blwyddyn yn ôl aeth llanc ieuanc o Ben Cemes allan i bysgota mewn cwch. Pergrin oedd ei enw.

Pan oedd yn rhwyfo yn araf heibio Ogof Cemes gwelai fôr-forwyn yn eistedd mewn agen yn y graig. Yr oedd wedi clywed sôn am fôr-forwyn lawer gwaith, ond nid oedd wedi gweled un erioed o'r blaen.

Yr oedd Pergrin wedi dychryn ychydig ac yn methu gwybod beth i'w wneud.

'Os âf yn agos ati', meddai, 'efallai mai fy hudo dan y dŵr a wna.' Ond er hynny i gyd ni fedrai droi yn ôl. Ac wedi aros ychydig aeth yn nês ati.

Yn awr yr oedd yn ddigon agos i'w gweled yn iawn, ac yr oedd yn sicr mai dyma'r eneth dlysaf a welsai erioed. Yr oedd yn edrych yn ieuanc iawn, a chanddi wallt hir modrwyog yn disgyn dros ei hysgwyddau. Yn ei llaw yr oedd ganddi grib aur hardd. Ac o'i blaen yr oedd llyn o ddŵr llonydd, a gwelai Pergrin yn awr mai cribo ei gwallt yr oedd. Ac yr oedd yn eistedd ar gwrr y llyn er mwyn gweled ei llun yn y dŵr.

Nid oedd hi wedi gweled Pergrin eto gan ei bod yn syllu i'r dŵr, ac aeth yntau ychydig yn nês ati. Yn awr clywai hi'n mwmian canu. A chyn gynted ag y clywodd Pergrin hi'n canu, dyna'r rhwyfau'n aros a'r cwch yn sefyll yn ei unfan. Ar hynny cododd hithau ei phen ac edrychodd i gyfeiriad y cwch.

Cyn gynted ag y canfu hi ef dyna hi'n dechreu canu'n uwch. Nid oedd Pergrin erioed wedi clywed y fath ganu peraidd, ac yr oedd wedi ei swyno'n fawr. Ac nid oedd arno eisiau mynd o sŵn y fath ganu melys â hwnnw.

Ymhen ychydig dyna hi'n codi ac yn llithro dros y graig, ac yn neidio i'r dŵr.

'Wel, dyna'r eneth dlysaf a welais i erioed', ebe Pergrin wrtho'i hun, 'ond dyna fi wedi ei cholli hi.'

Ond yn y man dacw hi'n codi ei phen o'r dŵr wedyn ac yn nofio'n araf at y cwch.

Yr oedd Pergrin yn awr yn methu gwybod beth i'w wneud. Yr oedd wedi clywed y byddai'r fôr-forwyn yn hudo rhai i'r môr.

'Os na ddywedaf rywbeth wrthi, mae hi'n sicr o droi'r cwch a'm denu dan y dŵr,' ebe Pergrin. 'Ond beth yn y byd a gaf fi i'w ddweyd?'

Cyn iddo gael amser i feddwl llawer, yr oedd y fôr-forwyn yn ymyl y cwch. Cododd ei phen o'r dŵr a gosododd ei llaw wen esmwyth ar ymyl y cwch. A chan wenu'n siriol arno meddai: 'Pergrin, Pergrin, Pergrin, a gaf fi ddod atat i'r cwch?'

A chyn iddo gael amser i ateb llamodd dros ochr y cwch ac eisteddodd yn y pen ôl.

Syllai Pergrin yn syn arni a cheisiodd siarad. Ond ni fedrai ddweyd gair. Yr oedd yn ei hedmygu'n fawr gan ei bod mor hardd a lluniaidd.

Ymhen ychydig dyma hi'n gwenu'n siriol arno wedyn ac yn dechreu canu fel o'r blaen, a dechreuodd Pergrin rwyfo'r cwch drachefn. Ac yn awr llithrai'r cwch yn esmwyth fel pluen dros y tonnau. Nid oedd raid iddo ond prin gyffwrdd y rhwyfau yn y dŵr.

Yn awr yr oedd Pergrin yn ei charu â'i holl galon, ac yn credu y deuai hi adref gydag ef i fod yn wraig iddo.

Rhwyfai'n gyflymach nag erioed. Yr oedd mewn brys mawr i fwrw ei rwydau er mwyn cael mynd adre gyda'r fôr-forwyn.

Ond cyn ei fod wedi mynd ymhell iawn oddiwrth y creigiau dyna hi'n peidio canu wedyn. Ac ymhen ychydig dechreuodd wylo'n chwerw dost. Nid oedd Pergrin wedi gweled neb erioed yn wylo fel hon. Yr oedd ei dagrau yn llifo fel afon dros ei gruddiau, a hithau'n awr yn erfyn yn daer am gael mynd yn ôl at ei chwiorydd o dan y tonnau.

'Pergrin, Pergrin, Pergrin,' ebe hi, 'os câf fynd yn ôl at fy nheulu, fe roddaf dair gwaedd i'th achub pan fo fwyaf dy berigl.'

Yr oedd Pergrin eto yn methu gwybod beth i'w wneud. Nid oedd am ei cholli'n awr ac yntau'n ei charu hi gymaint. Ond yr oedd wedi clywed sôn am ddial y môr-forwynion.

'Efallai', meddai wrtho'i hunan, 'mai troi fy nghwch a fy moddi a wnant eto os gwrthodaf adael iddi hi fyned yn ôl.'

Felly, er gofid mawr i'w galon, gadawodd iddi ddychwelyd at ei theulu o dan y dŵr. Ac ar hynny, llamodd y fôr-forwyn dros ochr y cwch, a diflannodd o'i olwg i ganol y môr.

. . . . . .

Aeth misoedd lawer heibio cyn iddo ei gweled drachefn. Ni soniodd air am dani wrth neb. Nid oedd yn deall ystyr ei geiriau yn iawn, ac nid oedd am i neb wybod iddo fod yn siarad gyda'r fôr-forwyn.

Yr oedd Pergrin yn mynd allan i bysgota bob dydd fel arfer, ac aeth heibio'r un agen yn y graig lawer gwaith. Ond er edrych ac edrych nid oedd dim golwg o'r fôr-forwyn yn unman.

'Nid oedd hynny ond esgus i gael mynd yn ôl i'r môr', ebe Pergrin. 'Ni welaf mo honi byth mwy. Fe'm twyllodd yn iawn.'

. . . . . .

Un prynhawn braf ymhen rhai blynyddoedd yr oedd Pergrin yn pysgota fel arfer, ac yr oedd y môr yn hollol lyfn a thawel. Nid oedd dim arwydd storm yn unman. Yr oedd llawer iawn o bysgotwyr eraill ymhell yng nghanol y môr, ac nid oedd nac ofn na phryder ar neb.

Ond yn sydyn dyma'r fôr-forwyn yn codi ei phen o'r môr yn ymyl cwch Pergrin, ac yn gweiddi mewn llais uchel:

'Pergrin, Pergrin, Pergrin, côd dy rwydau, côd dy rwydau, côd dy rwydau.'

Ac yn y fan diflannodd o'i olwg o dan y tonnau.

Ufuddhaodd Pergrin ar unwaith. Cododd ei rwydau a rhwyfodd am y lan. Yr oedd y môr yn berffaith dawel o hyd. Ond cyn gynted â bod Pergrin wedi mynd heibio i Ogof Cemes dyma storm yn dechreu codi o'r môr.

Yn awr rhuai y gwynt yn groch, a chodai y tonnau yn uchel. Ond erbyn hyn yr oedd cwch Pergrin yn y lan.

Yr oedd llawer iawn o gychod eraill ar y môr y diwrnod hwnnw, ond ni ddaeth dim un o honynt i'r lan. Nid oedd neb ond Pergrin wedi clywed gwaedd y fôr-forwyn.

II

Y BACHGEN A'R CAWR

Yn yr hen amser yr oedd cewri yn byw yng Nghymru. Mewn ogof y byddai'r cawr yn byw fel rheol, ac yr oedd ar bawb ofn mynd yn agos at ei gartref. Byddai yn lladd llawer o ddynion a merched, ac yr oedd yn hoff iawn o ddwyn plant.

Anaml y byddai neb yn gweled y cawr. Ond byddai rhai yn gweled goleu ei dân weithiau, a byddai yn dod allan yn aml yn y nos i ladd ac i ddifetha.

Un o'r cewri creulonaf oedd Cawr y Gilfach. Creadur rhyfedd iawn oedd hwn! Yr oedd yn wyth droedfedd o daldra, ac yr oedd ganddo un llygad yng nghanol ei dalcen ac un yn ei gorun. Felly yr oedd yn gallu gweled i bob cyfeiriad, ac amhosibl ydoedd i neb fynd yn agos ato heb iddo ef ei weled.

Yn y gaeaf byddai fel creadur gwallgof, yn enwedig pan fyddai rhew ac eira ar y llawr. Nid oedd yn gwisgo dillad gan fod blew mawr yn tyfu drosto. A phan fyddai'n oer iawn byddai'n tynnu coed mawr o'r gwraidd, ac yn eu cario i'w ogof i wneud tân.

O'r diwedd penderfynodd bachgen ieuanc geisio ei ladd. Bachgen amddifad ydoedd. Yr oedd wedi colli ei dad a'i fam, a chredai ef mai y cawr oedd wedi lladd y ddau.

Bu am wythnosau lawer yn meddwl sut y medrai ladd y cawr. Byddai'n cerdded wrtho'i hun am ddyddiau hyd ochrau'r mynydd yn ceisio ei weled. Yr oedd rhywun wedi ei weled o bell un diwrnod, ac yr oedd

ganddo bastwn mawr yn ei law. Ond er crwydro a chrwydro, nid oedd y bachgen amddifad byth yn ei weled yn unman.

Un diwrnod, wedi blino crwydro, eisteddodd ar ben y Graig Lwyd. Craig fawr oedd hon ar ochr y mynydd, ac nid oedd cartre'r cawr ymhell iawn o'r fan honno.

Wedi eistedd yno am ychydig gwelai ddyn bychan mewn hollt yn y graig. Dyn bychan bach ydoedd, a golwg garedig arno.

'Mae'n sicr mai un o'r Tylwyth Teg yw hwn,' ebe'r bachgen.

'Holo!' ebe'r gŵr bach, 'Beth wyt ti'n wneud yma?'

'Edrych am y cawr a laddodd fy nhad a fy mam,' ebe yntau.

'Sut y gwyddost ti mai y cawr a'u lladdodd hwy,' ebe'r gŵr bach.

'Dywedodd fy mam wrthyf mai efe a laddodd fy nhad,' ebe'r bachgen, 'a'r dydd o'r blaen collais fy mam wedyn. Ac 'rwy'n sicr mai'r hen gawr sydd wedi ei lladd hithau eto.'

'O, y mae hwnnw wedi lladd llawer o honom ninnau hefyd,' ebe'r gŵr bach.

'Fe'i lladdaf finnau yntau rhyw ddiwrnod,' ebe'r bachgen; 'ond nid wyf wedi ei weled eto.'

'A glywaist ti'r gwdihŵ yn hen dderwen fawr y Plas,' ebe'r gŵr bach.

'Do, y mae hi wedi bod yno er pan gollais fy mam,' ebe'r bachgen.

'Y gwdihŵ yn unig fedr ladd y cawr,' ebe'r gŵr bach.

'Sut felly?' ebe'r bachgen.

'Yr wyf fi'n medru iaith yr adar,' ebe'r gŵr bach: 'clywais mai'r gwdihŵ fedr ladd y cawr.'

'Rhaid i ti osod bwa saeth cryf ar ben y dderwen fawr,' meddai wedyn; 'y gwdihŵ fedr ladd y cawr.'

Yna diflannodd y gŵr bach ac aeth y bachgen adref.

Wedi cyrraedd adref chwiliodd am y bwa saeth cryfaf oedd ganddo. Ac wedi ei gael aeth ag ef, a gosododd ef ar ben hen dderwen fawr y Plas, yn ôl gorchymyn y gŵr bach.

'Mae'n sicr mai un o'r Tylwyth Teg oedd y gŵr bach,' meddai, 'ac efallai y gŵyr ef hanes yr hen gawr.'

'Paham yr oedd yn rhaid i mi ei osod ar ben hen dderwen fawr y Plas, tybed!' meddai wrtho'i hun. A dechreuodd feddwl mai cellwair yr oedd y gŵr bach wedi'r cyfan.

Ond yr oedd y gŵr bach wedi bod yn gwylio symudiadau'r hen gawr am amser maith. Gwyddai y byddai'n arfer mynd i orwedd o dan yr hen dderwen. Ac ym mrigau'r dderwen y byddai'r gwdihŵ yn cysgu.

Un noswaith, gan ei fod wedi blino, aeth yr hen gawr i gysgu o dan y goeden, a chyn gynted â'i fod wedi cysgu daeth y gwdihŵ uwch ei ben. Cydiodd yn y saeth oedd yn y bwa gyda'i chrafanc, a saethodd hi i ben y cawr, gan ei ladd yn y fan.

Yna ehedodd y gwdihŵ a disgynnodd o dan y dderwen, a churai ei hadennydd o lawenydd fod y cawr o'r diwedd wedi ei ladd.

Yna daeth y gŵr bach yno. Tarawodd y gwdihŵ â'i hudlath, ac wele pwy ydoedd ond mam y bachgen amddifad oedd wedi gosod y bwa saeth ym mrigau'r hen dderwen.

YR HEN DELYNOR

[Gwel tud. 47]

III

Y TELYNOR

AR y mynydd rhwng Ysbyty Ifan a'r Bala y mae cors o'r enw Y Gors Fawr. Ffordd unig unig oedd dros y mynydd hwnnw yn yr hen amser. Ac os collai rhywun y ffordd wrth deithio yn y nos, nid oedd dim i'w wneud ond cysgu yn y grug ar ganol y mynydd. Nid oedd goleuni tŷ yn unman i helpu dyn ar noson dywyll.

Yng nghanol y Gors Fawr yr oedd y Tylwyth Teg yn byw, ac weithiau gwelid eu goleuni hwy yn y nos. Goleu bach gwan ydoedd, yn symud yn chwim drwy'r grug. Ac yr oedd ofn hwnnw ar bawb bron. Pan fyddai niwl ar y mynydd yr oedd teithio'n anodd iawn. Ond yn y niwl y byddai'r Tylwyth Teg yn dod allan.

Un tro yr oedd Telynor ieuanc yn croesi'r mynydd yma yn y nos. Ac yng nghanol y niwl fe gollodd ei ffordd. Wedi crwydro'n hir cafodd ei hunan yng nghanol y Gors Fawr. A gwyddai'n awr nad oedd dim gobaith iddo gyrraedd y Bala y noson honno.

'Mae'n debig,' meddai, 'mai cysgu yn y Gors Fawr fydd raid i mi heno. Nid oes dim i'w wneud ond rhoi'r delyn i lawr a gorwedd yn y brwyn.'

Ond pan oedd ar roi i fyny, clywai sŵn rhywbeth yn symud drwy'r brwyn.

'Y mae rhywun yn dod o'r diwedd,' meddai. 'Efallai y medr hwn fy arwain i'r llwybr.'

Ac yna gwelai ddynes fechan yn cerdded tuag ato.

'Pwy yw hon, tybed?' meddai wrtho'i hun. 'Y mae hi'n od o fach. Ond efallai er hynny y medr fy helpu.'

Ac wedi iddi gyrraedd ato, dyna'r wraig fach yn cynnig ei llaw iddo. A gafaelodd yntau ynddi.

Yr oedd y niwl yn rhy dew, ac yr oedd yn rhy dywyll iddo fedru ei gweld yn eglur iawn. Gwyddai er hynny ei bod hi'n od o fach, a thybiodd ar unwaith mai un o'r Tylwyth Teg ydoedd. Yr oedd wedi clywed lawer gwaith mai pobl garedig iawn oedd y Tylwyth Teg, ac yn awr credai'n sicr mai un o honynt hwy oedd hon.

Cydiai y wraig fach yn dynn yn ei law, ond ni ddywedai air wrtho. Ac nid oedd yntau chwaith wedi yngan yr un gair eto. O'r diwedd, wedi cerdded am ysbaid drwy'r brwyn, deuthant allan o'r gors, a gwelai'r Telynor yn awr ei fod ar y llwybr.

Teimlai'n awr fod yn rhaid iddo ddiolch iddi am fod mor garedig wrtho, a chan blygu i lawr ati, meddai, 'Diolch yn fawr i chwi am fy arwain o'r gors.'

Ar hynny gwasgodd hithau ei law a chusanodd ef. Ac er nad oedd y Telynor yn ei gweled yn iawn, yr oedd ei chusan mor felys nes iddo syrthio mewn cariad â hi ar unwaith. Yna cydiodd yn ei law drachefn, ac arweiniodd ef ar hyd y llwybr.

Wedi iddynt gerdded am ysbaid, dyma hi yn aros o flaen drws rhyw dŷ. Ac heb guro'n y drws cerddodd i mewn i'r tŷ a'r Telynor ar ei hôl.

Dyma'r tŷ delaf a welsai erioed. Tŷ bychan bach ydoedd, ac yr oedd yn synnu fod yno ddigon o le iddo ef a'i delyn. Ond yr oedd yno ddigon o le, ac nid oedd yn gweld ei hun na'i delyn fymryn llai nag arfer. Yr oedd lamp fechan ar y bwrdd a honno mor oleu â'r haul. A gwelai yn awr mai geneth ieuanc brydferth oedd wedi ei arwain o'r gors.

Yn eistedd o ddeutu'r tân yr oedd gŵr a gwraig,—tad a mam yr eneth. A phan welsant y ddau yn dod i

mewn codasant, a rhoesant bob croeso i'r Telynor i'w tŷ. Ymhen ychydig o amser yr oedd yr eneth a'i mam wedi gwneud y swper yn barod. Y bwyd wedi ei osod ar fwrdd crwn o flaen y tân a lliain cyn wynned â'r eira arno. Ac ni chafodd y Telynor erioed y fath swper â hwnnw.

Wedi iddynt orffen bwyta'u swper, gofynnodd mam yr eneth iddo ganu ei delyn. A chanodd yntau rai o alawon melysaf Cymru. A phan oedd ef yn canu'r delyn yr oeddynt hwythau'n dawnsio. Nid oedd y Telynor wedi gweled neb erioed yn dawnsio fel hyn o'r blaen. A mawr yr hoffai'r eneth gan mor chwim ac ysgafn y dawnsiai, ac nid oedd erioed wedi gweled geneth cyn dlysed â hon.

Pan oedd y canu a'r dawnsio drosodd, trefnodd y ferch wely iddo, a dywedodd wrtho, 'Dôs i gysgu yma, a thi a gei fynd ar dy daith bore yfory.'

Yna aeth y Telynor i'w wely, ac wedi gosod ei delyn wrth droed y gwely, cysgodd yn dawel, gan freuddwydio am y ferch a garai.

Bore drannoeth deffrowyd ef, nid gan gusan yr eneth, ond gan gi Plas Drain yn llyfu ei wyneb. A phan edrychodd o'i gwmpas, gwelodd ei fod yn gorwedd wrth ddrws corlan y mynydd, a'i delyn wrth ei draed mewn llwyn o frwyn. Ac nid oedd dim hanes o'r ferch na'r teulu yn unman.

Ar ôl hyn bu'r Telynor yn chwilio lawer gwaith am y tŷ hwnnw ar ochr y mynydd. Ond ni welodd byth wedyn neb o'r teulu caredig a roddodd groeso mor gynnes iddo'r noson y collodd ei ffordd yn y Gors Fawr.

IV

Y BLWCH ELI

UNWAITH aeth geneth ieuanc am dro i'r ffair. Yn y ffair hon y byddai'r bechgyn a'r merched yn cyflogi. Ond nid oedd hi wedi meddwl cyflogi; dim ond mynd yno i weld y ffair yr oedd.

Ond wedi iddi fod yn cerdded o gwmpas yno am ychydig, daeth boneddwr bychan ati, a gofynnodd iddi a ddeuai hi yn forwyn ato.

'Ni fydd raid i ti wneud dim ond chware gyda'r plant,' meddai wrthi.

'Na,' ebe hithau, 'nid dyfod yma i gyflogi yr wyf fi, ond i weld y ffair.

Yna cynigiodd y boneddwr gyflog mawr iddi; mwy o lawer nag oedd neb arall yn gael yn unman. Ac addawodd hithau fynd ato.

'Cei ddyfod adref gyda mi'n awr ar gefn fy ngheffyl,' ebe'r boneddwr, 'ond rhaid i mi gael rhoi gorchudd ar dy lygaid cyn cychwyn.'

Yna, wedi rhoi gorchudd tywyll ar ei llygaid, cododd hi ar gefn ei farch ac ymaith â hwynt fel y gwynt.

Wedi teithio am amser disgynnodd y gŵr bach oddiar ei farch, a rhoddodd help iddi hithau i ddisgyn. Ac yna gafaelodd yn ei llaw ac arweiniodd hi ar hyd llwybr cul am amser maith.

O'r diwedd, safodd y ddau a thynnodd yntau y gorchudd oedd ar ei llygaid, ac er ei syndod gwelai ei bod yn sefyll mewn plas hardd. Nid oedd hi wedi gweled plas tebig i hwn erioed. Yr oeddynt yn sefyll yn awr

mewn neuadd fawr. Ar y muriau yr oedd miloedd o ganwyllbrennau aur, ac yn y rhain yr oedd canhwyllau yn llosgi nes goleuo'r holl le.

Yna gwelai fod yno lawer iawn o foneddigion a boneddigesau yn y plas; ac ymhen ychydig casglodd llawer o blant o'i chwmpas. Plant bychain bach oeddynt. Yr oedd eu dillad wedi eu gwneud o ddail mân fel dail y bedw. Ac ar eu pennau yr oedd capiau melyn tebig i flodau'r eithin, a sandalau am eu traed tebig iawn i adennydd chwilen.

Edrychai'r plant yn llawen iawn pan welsant hi, a rhoddasant bob croeso iddi i'r plas.

'Dyma'r plant,' ebe'r gŵr bach, 'byddant yn awr o dan dy ofal di.'

Ac yna dechreuodd hi a'r plant chware. Yr oedd ganddynt bob math ar degannau, a chware eu goreu y byddent bob dydd o fore dan nos.

Bore drannoeth daeth y gŵr bach ati a rhoddodd iddi flwch o eli.

'Bob bore,' meddai, 'y mae'n rhaid i ti iro llygaid y plant â'r eli hwn; ond gwylia rhag rhoddi dim o hono ar dy lygaid dy hun. Rhaid i ti olchi dy ddwylo'n lan ar ôl ei ddefnyddio.'

Gwnaeth hithau yn ôl ei orchymyn, ac yno y bu yn byw yn hapus iawn am amser hir.

Byddai'n synnu'n aml eu bod yn byw o hyd wrth oleu cannwyll. Yn y plas hardd y byddent drwy'r dydd, ac ni fyddai neb byth yn mynd oddiyno ond y gŵr bach. Byddai ef yn mynd a dod o hyd, ond ni fyddai byth yn aros yn hir oddiyno.

Un bore wedi bod yn iro llygaid y plant anghofiodd yr eneth olchi ei dwylo. Yna digwyddodd rwbio ei llygad chwith, ac aeth peth o'r eli i gongl ei llygad.

Yna â chongl y llygad chwith gwelai ei bod yng nghanol fflamau o dân. Yn awr yr oedd y bobl oedd yno yn edrych fel ellyllon, a'r plant y corachod bach hyllaf a welsai erioed. Ond â'r llygad de, a rhan o'r chwith, gwelai'r plas hardd fel o'r blaen. Yr oedd wedi dychryn yn awr, ac yr oedd yn methu gwybod beth i'w wneud.

'Mae'n sicr mai y Tylwyth Teg yw y rhain,' meddai. 'O, beth a wnaf i gael mynd adre'n ôl!'

Yr oedd arni ofn dweyd wrth ei meistr ei bod wedi anghofio golchi ei dwylo.

'Y mae'n sicr o fy nghosbi,' meddai, 'os y caiff wybod hynny.'

Felly penderfynodd gau y llygaid chwith, a bu yno am rai dyddiau heb edrych ar ddim ond drwy'r llygad de. Ond cyn gynted ag yr agorodd y llygad chwith gwelai hwy fel o'r blaen, a dechreuodd wylo'n chwerw.

Yna penderfynodd ofyn i'r gŵr bach a gai hi fynd adre'n ôl.

'Y mae hiraeth mawr arnaf,' meddai wrtho. 'Os caf fynd adref am ychydig dôf yma yn ôl wedyn.' A rhoddodd yntau ganiatad iddi i fynd.

'Ond,' meddai wrthi, 'Cyn i ti gychwyn, y mae'n rhaid i mi gael rhoi gorchudd ar dy lygaid.' Ac wedi rhoi gorchudd arnynt fel o'r blaen, arweiniodd hi allan o'r plas. Yna cododd hi eilwaith ar ei farch, ac aeth â hi ar garlam i ymyl ei chartref.

O mor falch ydoedd ei bod wedi cyrraedd adref! Ac yr oedd ei mam a'i thad yn falch hefyd ei bod wedi dychwelyd. Yr oeddynt wedi pryderu llawer yn ei chylch gan na wyddent i ba le yr oedd wedi mynd.

'Nid âf byth yn ôl eto,' ebe hi. 'Yr wyf yn sicr mai y Tylwyth Teg oedd yn byw yn y Plas hwnnw.'

Ac er ei bod wedi addaw mynd yn ôl, penderfynu aros adref a wnaeth.

Yn awr nid oedd arni eisiau mynd i'r ffair o gwbl, a bu am amser maith heb fynd yn agos i'r dref.

Ond ymhen rhai blynyddoedd aeth hi a'i mam i'r ffair un tro. A phan yn sefyll wrth un o'r byrddau mewn siop yno, gwelai ddyn bychan yn lladrata rhywbeth oddiar y bwrdd, ac yn ei ddodi yn ei boced. A thybiodd yr eneth ar unwaith mai ei hen feistr ydoedd.

Nid oedd hi wedi bwriadu siarad ag ef, ond heb feddwl dim trôdd ato, ac meddai:

'Helo! meistr, sut yr ydych chwi? Sut mae'r plant?' A thrôdd y gŵr bach ati mewn dychryn mawr.

'Sut yr wyt ti'n medru fy ngweld?' ebe ef yn swta.

'Yr wyf yn medru eich gweld â chongl y llygad chwith,' ebe hithau.

Ar hynny cymerodd y gŵr bach frwynen a thynnodd ei llygad chwith ymaith. Yna diflannodd o'i golwg, a bu'r eneth druan fyw ar hyd ei hoes heb ddim ond un llygad.



YR EFEILLIAID

V

YR EFEILLIAID

Er's llawer blwyddyn yn ôl yr oedd gan wraig Corwrion efeilliaid, a'r ddau yn blant bach hynod o ddel.

Pan fyddai hi allan yn gweithio yn y caeau, byddai'n gadael y ddau blentyn yn y crud yn y tŷ. Ac yr oedd y ddau yn cysgu'n ddiddig bob nos.

Ond un diwrnod, pan aeth yn ôl i'r tŷ yr oedd y ddau blentyn yn wylo'n dost, ac er ceisio popeth ni fedrai eu tawelu. Er cynnig popeth iddynt nid oedd dim yn tycio. Ac ymhen rhai wythnosau canfu hefyd nad oedd y plant yn cynhyddu dim, a'u bod yn mynd yn fwy anniddig a hagr bob dydd.

'Nid wyf yn gwybod beth i'w wneud gyda'r plant yma,' ebe'r fam druan, 'os nad âf i ofyn cyngor gan Mari Huws, yr hen widdon sy'n byw yn y pentref.'

Yn Nhyddyn y Barcud yr oedd Mari Huws yn byw. Yr oedd yn hen iawn, a chanddi lawer o straeon am y Tylwyth Teg. Yr oedd y fam wedi clywed Mari yn dweyd lawer gwaith y byddai'r Tylwyth Teg yn arfer dwyn plant, yn enwedig plant bach tlws oedd beb eu bedyddio. A bob amser byddent yn gadael rhai hyll yn eu lle. Felly aeth y fam druan i weld yr hen Fari Huws.

'Nid wyf yn gwybod beth i'w wneud gyda'r plant acw,' ebe hi. 'Y mae'r ddau yn llefain drwy'r dydd. Nid ydynt yn tyfu dim ac nid oes dim byd yn eu boddhau.'

'A wyt ti'n sicr mai dy blant di ydynt?' ebe'r hen widdon. 'Nid oes dim un o'r ddau yn debig i ti o gwbl.'

''Rwy'n ameu hynny fy hunan weithiau,' ebe hithau.

''Rwy'n sicr,' ebe'r hen widdon, 'mai plant y Tylwyth Teg yw y rhain. Y mae'n rhaid dy fod wedi eu digio ryw ffordd neu gilydd, a hwythau er mwyn dial arnat wedi newid dy blant.'

'O, tewch, Mari Huws', ebe hithau gan wylo'n chwerw. 'O! fy nau blentyn bach druan! Ni welaf mo honynt byth mwy.'

'O, gweli'n ddigon hawdd', ebe Mari Huws. 'Fe wn i am rai o driciau'r Tylwyth Teg yn lled dda.'

'Fe roddaf unrhyw beth i chwi os dywedwch wrthyf sut i gael fy mhlant yn ôl,' ebe'r fam druan.

'Dos adre,' ebe'r hen widdon, 'a gwna beth hollol ffôl pan fo'r ddau yn edrych arnat, a gwrando beth ddywed y naill wrth y llall.'

'Ni wn i ddim yn y byd mawr yma beth i'w wneud,' ebe'r fam. 'Beth fuasech chwi yn wneud?'

'Wel,' ebe'r hen Fari Huws, 'y peth goreu i ti yw cymryd plisgyn ŵy a darllaw cwrw ynddo mewn ystafell o'r neilltu, a gadael i'r ddau dy weld. Yna tyrd yma i ddweyd wrthyf fi beth ddywed y ddau am beth felly.'

Ac aeth y fam adref, a phan gafodd gyfle, gwnaeth yn ôl cyngor yr hen widdon. Ymhen ychydig gwelai y ddau yn ei gwylio, gan godi eu pennau i fyny yn y crud, ac edrych arni'n ceisio darllaw y cwrw. Ac ebe'r naill wrth y llall yn ddistaw bach:

''Rwy'n cofio gweld y dderwen acw'n fesen, ond ni welais i neb erioed o'r blaen yn darllaw cwrw mewn plisgyn ŵy.'

'Ac 'rwyf finnau'n cofio'r iar acw'n ŵy', ebe'r llall, 'Ond nid wyf fi ddim yn cofio neb o'r blaen yn ceisio darllaw cwrw fel yna.'

Ar hynny aeth y fam ar ei hunion at Mari Huws ac adroddodd wrthi beth oedd yr efeilliaid wedi ei ddweyd wrth ei gilydd.

'Dos adre'n awr,' ebe'r hen widdon, 'a chymer y ddau blentyn, un dan bob cesail, a dos â hwy at y bompren sydd dros yr afon yng ngwaelod Cae'r Pant, a gollwng y ddau dros ganllaw y bont i'r afon. Plant y Tylwyth Teg yw y ddau, fel y dywedais wrthyt ar y cyntaf.'

Yna aeth y fam adref drachefn a gwnaeth yn ôl gorchymyn yr hen widdon. Gollyngodd y ddau dros y bompren i'r dŵr, a phan ddaeth adre'n ôl y tro hwn, canfu er ei syndod ei dau blentyn ei hun yn cysgu'n dawel yn y crud.

VI

MAB LLECH Y DERI

DIM ond un mab oedd yn Llech y Deri. Hywel oedd ei enw, ac efe wrth gwrs oedd etifedd y tyddyn. Yr oedd ei dad yn hoff iawn o hono, ac yr oedd fel cannwyll llygad ei fam.

Wedi iddo dyfu'n ddyn daeth ef a'r hwsmon yn gyfeillion mawr. Yr oeddynt yn union fel dau frawd. Byddent yn cysgu gyda'i gilydd bob amser, ac yn bwyta ar yr un bwrdd bob pryd. A byddai'r fam yn wastad yn darparu dillad i'r gwas yr un fath yn hollol ag i'w mab ei hun. A thybiai'r rhan fwyaf o'r bobl mai brodyr oeddynt.

Pan oeddynt tua thair ar hugain oed syrthiodd y ddau mewn cariad â dwy eneth ieuanc o'r ardal, a'r rhain oedd y ddwy lanaf yn yr holl wlad. Pan ddaeth y newydd am hyn i Lech y Deri yr oedd pawb yno wrth eu bodd. Ac ymhen ychydig fisoedd priodwyd y ddau, a bu llawenydd mawr drwy'r holl ardal ar ddydd y briodas.

Yn Llech y Deri yr oedd y mab a'i wraig yn byw, a chafodd y gwas hefyd dŷ cyfleus ar dir Llech y Deri. Ac fel o'r blaen yr oedd y ddau yn parhau'n gyfeillion o hyd. Ymha le bynnag y byddai'r naill byddai'r llall yn sicr o fod yno hefyd.

Ymhen rhyw hanner blwyddyn ar ôl y briodas aeth y ddau allan i hela un diwrnod ar dir Llech y Deri. Ac wedi iddynt gerdded am ysbaid trôdd y gwas o'r neilltu i gilfach dawel yn llawn o ddrain a drysi i chwilio am helwriaeth. Ac wedi bod yno am ychydig amser daeth yn ôl at eî gyfaill. Ond er ei syndod nid oedd dim golwg o hono yn unman. A bu yno yn chwilio am dano

am amser maith. Gwaeddai a chwibanai dros y lle ond nid oedd neb yn ateb o gwbl.

'Mae'n rhaid ei fod wedi blino'n aros wrthyf, ac wedi mynd adre,' ebe'r gwas. 'Mae'n well i minnau fynd adre'n awr hefyd.'

Ac aeth yn ôl i Lech y Deri, gan ddisgwyl gweld y mab yno. Ond nid oedd neb yno yn gwybod dim o hanes Hywel, ac adroddodd y gwas fel yr oedd ef wedi troi o'r neilltu i'r gilfach ac wedi ei golli.

Bu disgwyl mawr am Hywel yn ôl y noson honno, ond nid oedd dim golwg o hono yn unman. A bu galar mawr yn Llech y Deri drwy'r nos. Wylai ei fam a'i wraig yn chwerw dost, ac yr oedd ei dad bron a mynd yn wallgof.

Bore drannoeth aethant i gyd i'r lle yr oedd y gwas wedi colli Hywel, ac yno y buont yn chwilio ac yn gweiddi am hir amser. Wedi chwilio'n fanwl am oriau gwelent gylchoedd bychain ar y ddaear heb fod ymhell o'r lle yr oedd y gwas wedi ei adael.

'Mae'n sicr mai cylchoedd y Tylwyth Teg yw y rhain', ebe'r gwas. 'Ac 'rwy'n cofio'n awr i mi glywed canu swynol yn rhywle pan oeddwn yn y gilfach acw.' 'Ie', ebe ei wraig dan wylo, 'yr wyf finnau'n sicr mai y nhw sydd wedi ei hudo.'

Ac aeth pawb adref yn drist iawn gan gredu fod Hywel wedi ei ddenu i fro'r Tylwyth Teg.

Aeth wythnosau a misoedd heibio, a ganwyd mab i aer Llech y Deri, ond nid oedd ei dad druan yno i'w groesawu. Yr oedd yr hen bobl yn llawn gofid o hyd, ac yr oedd ei wraig yn awyddus iawn i'w phlentyn gael gweled ei dad. Ond aeth blynyddoedd heibio heb air o sôn am dano.

Tyfodd ei fab i fyny'n ddyn, ac yr oedd yr un ffunud

a'i dad, a phawb yn hoff iawn ohono. Efe oedd popeth gan ei daid a'i nain, ac yr oedd gan yr hen hwsmon, cyfaill ei dad, feddwl mawr iawn o hono.

O'r diwedd priododd un o ferched ieuanc glanaf yr ardal, ond yn perthyn i deulu angharedig. A chyn hir bu yr hen bobl farw, ac ni bu ei fam druan fyw yn hir iawn ar eu holau.

Erbyn hyn yr oedd pawb bron wedi anghofio am Hywel. Mynnai rhai fod rhywun wedi ei ladd neu ei fod wedi ei ladd ei hun, ac nid oedd neb yn disgwyl ei weld byth mwyach.

. . . . . .

Rhyw brynhawn gwyntog ym mis Hydref, ymhen llawer o flynyddoedd, safai gwraig ieuanc Llech y Deri ar ben y drws, ac un o'r plant ar ei braich. Yn cerdded i fyny'r buarth, gwelai hen ŵr tal, teneu, a'i farf a'i wallt cyn wynned â'r eira. Cerddai'n araf, araf, ac edrychai'n syn a gwelw, a thybiodd y wraig mai crwydryn ydoedd. Edrychai'r morwynion arno drwy'r ffenestr, a chwarddai'r plant am ei ben, gan gredu mai tlotyn yn dyfod i chwilio am gardod ydoedd.

Daeth yr hen ŵr ymlaen at y drws, ac ar ei union i'r tŷ, gan ddechreu holi am ei wraig a'i rieni.

'Eich gwraig, yn wir,' ebe'r feistres, 'i beth y mae hen gerpyn meddw fel y chwi yn dod i'r tŷ yma i ofyn am eich gwraig a'ch rhieni?'

'Ie, fy ngwraig a'm rhieni,' ebe'r hen ŵr; 'ddoe yr euthum oddiyma i hela gyda Huw yr hwsmon. I ble y mae ef wedi mynd?'

Edrychai pawb yn syn arno erbyn hyn, a syllai yntau ar bopeth yn y tŷ, ac yn enwedig ar y plant bach. Yna eisteddodd i lawr ac adroddodd ei hanes wrthynt. Ond ni wrandawai'r wraig arno. Dywedodd wrtho iddi glywed

rhywbryd fod tad ei gŵr wedi mynd ar goll wrth hela flynyddoedd cyn ei geni hi.

'Ond waeth i chwi heb na dweyd eich stori wrthyf fi,' ebe hi; 'rhaid i chwi adael y tŷ yma ar unwaith.'

Ar hyn cyffrôdd yr hen ŵr, a safodd ar ei draed eilwaith.

'Myfi biau'r tŷ yma', ebe ef, 'ac ni fedr neb fy nhroi i oddiyma.'

'Dyna'r hen goeden', meddai eilwaith, 'y bum yn eistedd tani ganwaith pan yn blentyn,' gan gyfeirio at hen goeden ar waelod y buarth.

Yna aeth allan o'r tŷ a cherddodd ymaith i dŷ yr hen hwsmon. Wedi iddo gyrraedd yno gwelai fod popeth wedi newid llawer. Ac wedi iddo fynd i mewn i'r tŷ gwelai hen ŵr oedrannus yn eistedd ar stôl drithroed wrth y tân. Yna dechreuodd y ddau ymddiddan am bethau mebyd; yr hen hwsmon yn adrodd stori'r hela, ac fel y bu iddo golli Hywel.

Ac wedi iddynt eilwaith edrych ar ei gilydd, meddai'r hen hwsmon:

'Mae'n rhaid mai chwi yw Hywel Llech y Deri wedi dychwelyd o wlad y Tylwyth Teg. Y mae ymhell dros hanner can mlynedd er hynny, ac yr oeddwn bron wedi anghofio am danoch.'

'Ie,' ebe'r hen ŵr, 'Hywel Llech y Deri wyf fi, ond y mae Llech y Deri wedi newid llawer er hynny.'

'Rhaid i chwi gael tamaid o fwyd,' ebe'r hen hwsmon, 'ac yna fe awn yn ôl i Lech y Deri eto.'

Ond cyn gynted ag y dechreuodd fwyta, syrthiodd yn farw i'r llawr, ac nid oedd ond dyrnaid o ludw ar yr aelwyd yn y lle y safai.

Ac am i'r wraig wrthod derbyn Hywel i'w hen gartref, bu melltith ar Lech y Deri am naw cenhedlaeth.

VII

MAB YR YSTRAD

YN yr hen amser byddai llawer o'r Tylwyth Teg yn byw yn Nant y Betws. Byddai'r bobl yn clywed eu canu weithiau ac yn eu gweld yn dawnsio yn y caeau. Ond ni fyddai neb byth yn mynd yn agos atynt.

Un tro yr oedd mab yr Ystrad wedi mynd am dro tua Llyn y Dywarchen. Ac wedi cyrraedd i ymyl y llyn gorweddodd mewn llwyn ar gwrr y llannerch lle y byddai'r Tylwyth Teg yn arfer dawnsio.

Yr oedd yn dechreu nosi yn awr a'r lloer yn disgleirio ar y llannerch las. Yr oedd pob man yn hollol ddistaw, heb ddim i'w glywed ond sŵn yr afon yn llithro'n esmwyth dros y cerrig. Yr oedd y llanc wedi gweld y Tylwyth Teg o bell lawer gwaith, ond nid oedd erioed wedi bod yn eu hymyl. A'r noson honno penderfynodd aros yno nes y deuent allan.

Cyn bo hir dyma amryw o honynt yn dechreu rhedeg ar draws y llannerch, ac ymhen ychydig funudau yr oedd yno ddwsinau o honynt wedi ffurfio'n gylch, ac yn dawnsio oddiamgylch.

Wedi syllu arnynt am ysbaid canfu fod yn eu mysg un o'r genethod tlysaf a welsai erioed. Yr oedd ei chroen cyn wynned â'r eira. Yr oedd ei llais cyn felysed â llais yr eos, ac mor dyner ag awel hâf mewn gardd flodau. A dawnsiai cyn ysgafned â phelydrau'r haul ar Lyn y Dywarchen.

Syrthiodd y llanc mewn cariad â hi yn y fan, a phenderfynodd neidio i'r cylch a'i dwyn ymaith gydag

ef. A phan oeddynt ar ganol dawnsio, rhuthrodd i'w canol. Rhoddodd ei freichiau am dani, a chododd hi'n dyner ar ei ysgwydd a rhedodd â hi adref bob cam. Pan welodd y Tylwyth Teg hyn rhedasant hwythau ar ei ôl. Ond cyrhaeddodd y llanc y tŷ o'u blaenau, a chaeodd y drws.

Yr oedd pawb yn synnu gweled geneth mor dlos â hon, ac yr oedd pawb yn dyner a charedig iawn wrthi. Ceisiai y llanc yn awr ei denu i ddod yn wraig iddo, canys yr oedd yn ei charu â'i holl galon. Ar y cyntaf ni wrandawai hi arno o gwbl, ac âi yntau yn fwy taer o hyd. Ac o'r diwedd, gan nad oedd gobaith cael mynd yn ôl at y Tylwyth Teg, dywedodd wrtho :

'Ni wnaf addaw bod yn wraig i ti, ond os medri di ddyfeisio fy enw fe arhosaf yma yn forwyn os mynni.' A chan gredu nad oedd hynny'n amhosibl derbyniodd yntau'r cynnig.

Ond yr oedd y gwaith yn anos nag y tybiai, a bu am ddyddiau lawer yn ceisio dyfalu. Cynigiodd bob enw fedrai feddwl am dano, ond nid oedd dim un yn iawn. Ac yr oedd y llanc ieuanc bron a digalonni.

Ond un noswaith, wrth ddod adref o'r farchnad, gwelai amryw o'r Tylwyth Teg, heb fod ymhell o'i lwybr. Tybiai y clywai hwy'n trafod rhywbeth, ac meddai wrtho'i hun :

'Yr wyf yn sicr mai cynllunio i fynd acw i ddwyn eu chwaer y maent. Os medraf fynd yn agos atynt, efallai y clywaf eu sgwrs ac y câf wybod ei henw.'

Yna llusgodd drwy'r gwellt nes dyfod i'w hymyl, a chanfu ar unwaith ei fod yn iawn. Cyn gynted â'i fod yno clywai un o honynt yn llefain yn uchel :

'O Penelop, Penelop, fy chwaer, paham yr aethost ti ymaith gyda'r dyn hwnnw.'

'Penelop,' ebe'r llanc wrtho'i hun, 'dyna ei henw; dyna ddigon i mi.'

Yna ymgripiodd yn ôl heb i'r Tylwyth Teg ei weld, a rhedodd adref. Ac wedi cyrraedd y tŷ galwodd arni wrth ei henw:

'Penelop, fy anwylyd, tyrd yma!'

'O ddyn! pwy a fradychodd fy enw i ti?' meddai hithau, a chan godi ei breichiau, gwaeddodd,

'Gwae fi! Fy Nhynged! Fy Nhynged!'

Ond yr oedd yn rhaid iddi aros yn yr Ystrad yn awr, a boddlonodd ar ei thynged. Dechreuodd weithio o ddifrif, a morwyn ragoral oedd hi hefyd. Yr oedd llwyddiant mawr ar bopeth a wnai, ac nid oedd morwyn lanach na chynilach yn unman. Byddai'n godro'r gwartheg dair gwaith bob dydd, a rhoddent fwy o laeth iddi hi nag i neb arall. Ni chafwyd chwaith erioed gymaint o fenyn o'r llaeth â'r adeg honno.

Ond nid oedd y llanc yn fodlon iddi fod yn ddim ond morwyn yno, a cheisiai ei pherswadio i fod yn wraig iddo. Ac o'r diwedd, gan ei fod mor dyner a charedig wrthi, addawodd ei briodi.

'Ond,' ebe hi, 'mae'n rhaid i ti addaw un peth i mi.'

'Beth yw hynny?' ebe yntau.

'Y mae'n rhaid i ti addaw na wnai di byth fy nharo â haearn. Os byth y tarewi di fi â haearn, fe ddychwelaf yn ôl at fy nheulu.'

'Fe addawaf hynny'n rhwydd,' ebe yntau, gan dybio na fyddai i hynny byth ddigwydd.

Yn wir buasai'n addaw llawer mwy na hynny. Yr oedd yn ei charu gymaint nes bod yn barod i addaw unrhyw beth er mwyn ei chael yn wraig. Felly priodwyd hwynt y diwrnod hwnnw, a bu'r ddau fyw yn hapus am flynyddoedd.

Ganwyd iddynt ddau o blant, bachgen a geneth.

Dyma'r plant tlysaf a'r goreu yn yr holl ardal. Ac nid oedd teulu mor ddedwydd a theulu'r Ystrad yn unman yn y wlad. Yr oeddynt yn llwyddo gyda phopeth, ac yn fuan hwy oedd biau'r Ystrad, a holl dir Nant y Betws hyd ben y Wyddfa, a Chwm Brwynog yn Llanberis.

Un diwrnod yr oedd y gŵr yn mynd i'r ffair i werthu ebol. A'r bore cyn cychwyn aeth i'r cae i geisio ei ddal. Ond creadur ieuanc a gwyllt oedd hwn, ac wedi bod yno'n hir iawn methodd a'i ddal. Yna galwodd ar ei wraig i'w helpu, a rhedodd hithau ato ar unwaith. Llwyddodd y ddau i yrru'r ceffyl i gornel y cae. Ond pan aeth y gŵr ato i roi ffrwyn yn ei ben, rhuthrodd yr ebol heibio iddo. Yn ei wylltineb taflodd yntau'r ffrwyn ar ei ôl, ac ar bwy y disgynnodd ond ar Benelop ei wraig. Tarawodd darn o'r haearn hi yn ei boch, ac yn y fan diflannodd o'i olwg.

Ond er hynny i gyd nid oedd hi wedi llwyr anghofio ei gŵr a'i dau blentyn. Yr oedd yn amlwg ei bod hi'n eu caru hwy o hyd. A rhyw noson oer yn y gaeaf, a'r gwynt yn chwythu o'r gogledd, daeth at ffenestr ei ystafell wely. Clywai y gŵr rhywun yn curo'r ffenestr a chodi odd o'i wely, a chlywai lais swynol ei wraig yn dweyd:

'Os bydd annwyd ar fy mab,
Rhowch am dano gôb ei dad;
Os bydd annwyd ar liw'r cann,
Rhowch am dani bais ei mam.'

Yn ôl cyfraith y Tylwyth Teg ni chai hi byth wedyn ddyfod i fyw i'r ddaear. Ond er mwyn cael siarad â'i gŵr a'r plant, trefnodd hi a'i mam i gael tywarchen fawr i nofio ar wyneb y llyn. Ac ar hon byddai'n treulio oriau i siarad gyda'i gŵr a'i phlant oddiar y lan. Ac fel hyn y buont fyw gyda'i gilydd nes i'r gŵr a'r plant farw. Y mae'r dywarchen eto'n nofio ar wyneb y llyn, a dyna paham y gelwir ef yn Llyn y Dywarchen.



GUTO BACH

VIII

GUTO BACH

WRTH droed un o fynyddoedd Cymru yr oedd cartref Guto Bach. Byddai Guto yn crwydro'n aml i ben y mynydd i edrych ar ôl defaid ei dad, ac ambell dro byddai'n hir iawn cyn dychwelyd.

Un tro, wedi bod yn hwy nag arfer, daeth yn ôl gyda darnau o arian yn ei boced. Darnau tebig i goronau a hanner-coronau oeddynt, ac yr oedd ei fam a'i frodyr yn methu gwybod ym mha le yr oedd Guto wedi cael yr arian.

'Ym mha le y cefaist ti rheina Guto?' ebe ei fam.

'Bum yn chware ar y mynydd gyda'r plant bach,' ebe Guto, 'a hwy roddodd yr arian i mi.'

A thybiodd ei fam ar unwaith mai plant y Tylwyth Teg oedd y rhain, a rhybuddiodd ef i beidio chware â hwynt byth wedyn.

Ond rhyw ddiwrnod collwyd Guto drachefn, ac ni ddaeth yn ôl am tua dwy flynedd. Yn ystod yr amser hwnnw byddai ei frodyr a'i chwiorydd yn mynd i ben y mynydd i chwilio am dano. A chawsant hwythau hefyd ddarnau o arian gwynion ar y cerrig lawer gwaith, ond ni welsant ddim golwg o Guto.

Ymhen dwy flynedd fodd bynnag, pan agorodd ei fam y drws un bore, pwy oedd yn eistedd ar y rhiniog ond Guto Bach, ac o dan ei gesail yr oedd ganddo fwndel o ddillad. Nid oedd wedi tyfu dim, ac yr oedd yr un dillad am dano a phan adawodd ei gartref.

'Fy mhlentyn annwyl i!' ebe ei fam. 'Ym mha le y buost ti cyhyd?'

'Dim ond ddoe yr euthum i ffwrdd, a bum yn chware gyda'r plant bach,' ebe yntau.

'Edrychwch ar y dillad hardd a gefais ganddynt,' meddai drachefn, gan agor y bwndel oedd dan ei gesail.

Yna edrychodd ei fam i'r bwndel, a gwelai mai dillad papur oedd y rhain. Yr oeddynt cyn wynned â'r eira, ac nid oedd na phwyth na gwnïad ynddynt yn unman.

Gwyddai ei fam yn eithaf da mai dillad y Tylwyth Teg oedd y rhain, a thaflodd hwynt i'r tân, gan rybuddio Guto i beidio mynd yn agos atynt byth wedyn.

Ond yn fuan ar ôl hyn bu arian y Tylwyth Teg o help mawr i rieni Guto Bach. Yr oedd ei dad a'i fam wedi casglu tipyn o arian, ond drwy ryw anffawd collasant y cwbl, ac ni wyddent i ble i droi i gael arian at fyw.

Ar ochr y bryn heb fod ymhell o'r tŷ yr oedd carreg fawr, ac yn ôl y traddodiad yr oedd trysor aur o dan y garreg. Yr oedd llawer un wedi ceisio symud y garreg o dro i dro, ond nid oedd neb erioed wedi llwyddo. Yn awr penderfynodd tad Guto Bach geisio symud y garreg er mwyn cael yr aur oedd o dani. Gwyddai pawb am ei golled, a chydymdeimlai ei gymdogion ag ef yn fawr, a daeth llawer yno i'w helpu.

Ond er pob ymdrech ni fedrent symud y garreg yr un fodfedd o'i lle.

Yr oedd Guto'n gwybod bod ei dad wedi colli'r arian, a gwyddai hefyd ei fod yn pryderu yn eu cylch.

'Yr oedd gan y plant bach fyddai'n chware gyda mi ar y mynydd ddigon o arian bob amser,' ebe Guto; 'fe ofynnaf iddynt hwy am fenthyg.'

Yna aeth Guto i'r mynydd fel o'r blaen i edrych am y

plant bach. A phan ddeuthant ato dywedodd yr hanes wrthynt, a gofynnodd a fedrent hwy helpu ei rieni.

'Na,' ebe un o honynt, 'y mae digon o arian o dan y garreg fawr ar ochr y bryn yn y fan acw.'

'Oes,' ebe Guto, 'ond ni fedr neb symud y garreg. Y mae holl wŷr yr ardal wedi ceisio ac wedi methu.'

'O, fe wyddom hynny,' ebe hwythau. 'A geisiaist TI symud y garreg erioed?'

'Naddo,' ebe Guto dan wenu, 'waeth i mi heb na cheisio wedi i bawb arall fethu.'

'Dos adre,' ebe hwythau, 'a dos at y garreg gyda'th rieni, a cheisia ei chodi dy hunan.'

Ac aeth Guto Bach adref a dywedodd yr hanes wrth ei dad a'i fam. Chwarddodd ei dad pan welodd fod Guto mor selog i fynd i symud y garreg. Ond yr oedd ei fam yn credu yn y Tylwyth Teg, a pherswadiodd ei dad i fynd yno gydag ef, ac yno yr aethant.

Pan ddeuthant at y garreg rhoddodd Guto ei law arni, ac yn y fan dyna hi'n dechreu ysgwyd. Yna gwthiodd Guto yn ei herbyn, a chododd yr hen garreg o'r ddaear gan ddechreu treiglo i lawr dros ochr y bryn.

Ac o dani yr oedd pentwr o aur,—mwy o lawer nag oedd rhieni Guto wedi golli. Ac yn awr teulu Guto Bach oedd y bobl gyfoethocaf yn yr holl sîr.

IX

NANT YR ELLYLLON

AR ochr y mynydd rhwng Llangollen a Chastell Dinas Bran y mae Nant yr Ellyllon. Un tro yr oedd bachgen o'r enw Tudur ab Einion Gloff yn bugeilio defaid yn y nant hon, a byddai'n mynd â'r defaid adref gydag ef bob nos.

Un noson pan yn cychwyn yn ôl gwelai ddyn bychan yn eistedd ar garreg wrth ymyl y llwybr a ffidil dan ei gesail. Dyn bychan bach ydoedd—y lleiaf a welsai erioed. Yr oedd ganddo gôt o ddail bedw, a helmet o flodyn eithin am ei ben. Ac am ei draed yr oedd ganddo esgidiau o adennydd chwilen.

Pan welodd ef Tudur rhedodd ei fysedd dros linynnau'r ffidil, a daeth sŵn mor rhyfedd o honi nes teimlai Tudur fod ei wallt yn sefyll ar ei ben.

'Nos da, nos da,' ebe'r gŵr bach.

'Nos da, syr,' ebe Tudur.

'Credaf dy fod yn hoff o ddawnsio,' ebe'r gŵr bach; 'os arhosi yma am funud cei weld y dawnswyr goreu yng Nghymru.'

'Y fi,' ebe'r gŵr bach gan sythu, 'y fi yw'r pencerdd.'

'Pa le mae eich telyn?' ebe Tudur, 'ni fedr Cymro ddim dawnsio heb y delyn.'

'Telyn?' ebe'r gŵr bach yn ddirmygus. 'Gallaf fi dynnu gwell miwsig o'r ffidil yma nag o unrhyw delyn.'

Nid oedd Tudur erioed wedi gweld offeryn fel hwn o'r blaen, ac meddai:

'Ai ffidil ydyw'r llwy bren yna sydd yn eich llaw?'

Ac yna gwelai filoedd o ysbrydion bychain yn dyfod i lawr dros ochr y mynydd, ac yn disgyn i'r nant lle'r oedd ef a'r gŵr bach yn sefyll. Yr oedd rhai mewn dillad gwynion, rhai mewn glas, rhai mewn pinc, a rhai yn cario pryf tân yn eu dwylo er mwyn cael goleu. Cerddent mor ysgafn fel nad oedd yr un gwelltyn yn plygu danynt. A phob un yn ymgrymu wrth fynd heibio'r gŵr bach.

Yna dechreuodd y gŵr bach ganu ei ffidil, a chanai mor swynol nes bod Tudur yn edrych yn syn arno. Yna ffurfiodd y Tylwyth Teg eu hunain yn gylchoedd gan afael yn nwylo ei gilydd a dechreu dawnsio. Ac nid oedd Tudur erioed wedi gweled y fath ddawnsio â hyn. Yr oedd awydd mawr arno i ymuno yn y ddawns, ac yr oedd ei draed a'i ddwylo'n cadw'r amser tra'r oedd y gŵr bach yn canu. Ond yr oedd arno ofn mynd i'r cylch gan y credai'n awr mai y Tylwyth Teg oedd y rhain. Yr oedd y miwsig yn mynd yn gyflymach o hyd, a hwythau'n dawnsio fel y gwynt.

'Paham na ddawnsi di Tudur,' ebe'r gŵr bach.

'Na,' meddai Tudur, 'gadewch iddynt hwy ddawnsio, ac fe edrychaf innau.'

Yn wir, yr oedd tipyn o ofn ar Tudur yn awr, ond yr oedd ei draed a'i ddwylo'n mynd yn gyflymach o hyd. Ac o'r diwedd neidiodd i ganol y cylch a gwaeddodd: 'Wel yn awr, yr Ysbryd Drwg chware dy oreu.'

Ac ar y gair dyma bopeth yn newid. Diflannodd y blodyn eithin oddiar ben y gŵr bach, a daeth dau gorn gafr allan o'i ben. Aeth ei wyneb cyn ddued â'r huddugl, a daeth cynffon hir allan o dan ei gôt. Ac yn lle esgidiau o adennydd chwilen yr oedd ganddo draed fforchog fel traed buwch.

Yr oedd Tudur wedi dychryn yn awr, ond daliai i

ddawnsio o hyd. Yna trôdd yr ysbrydion drwg yn bob llun a lliw. Trôdd rhai yn eifr, rhai yn gŵn, rhai yn llwynogod, a rhai yn gathod. Yr oeddynt yn un haid o gwmpas Tudur druan, ac yn dawnsio'n gyflymach gyflymach o hyd. Yr oedd y cwbl yn troi o'i gwmpas fel olwyn o dân, a'r gŵr bach yn canu ei ffidil o hyd. Ac felly y buont drwy'r nos.

Trannoeth daeth ei feistr i chwilio am dano. Cafodd y defaid yn pori fel arfer, ond er ei syndod gwelai Tudur yn troi fel olwyn yng nghanol y nant.

'O meistr, meistr, stopiwch fi!' ebe Tudur.

'Wel, Rhad Duw arnat,' ebe yntau. A chyn gynted ag y dywedodd hyn dyna Tudur yn aros yn ei unfan. Ac yr oedd wedi dychryn cymaint nes syrthio i freichiau ei feistr, ac ni fu llawer o drefn arno byth wedyn.

X

RHYS A LLYWELYN

UN noswaith yr oedd dau was ffarm yn dychwelyd o'u gwaith. Rhys oedd enw'r naill a Llywelyn oedd enw'r llall. Pan oeddynt yn cerdded drwy goedwig gwaeddodd Rhys:

'Ust! a glywi di'r canu yna?'

'Na chlywaf fi,' ebe Llywelyn, 'tyrd yn dy flaen.'

'Na,' ebe Rhys, 'yr wyf wedi clywed yr alaw yna ganwaith ac wedi dawnsio iddi: rhaid i mi gael hyd i'r cantorion yna. Dos di adref os mynni. Fe ddôf ar dy ôl cyn bo hir.'

Ac ymaith â Rhys i ganol y coed, ac aeth Llywelyn adref i fwyta'i swper.

Ar ei ffordd adref credai Llywelyn mai wedi mynd am sbri i'r dafarn yr oedd Rhys ac y deuai'n ôl cyn y bore. Ond pan ddaeth y bore nid oedd dim hanes o Rhys yn unman. Yna chwiliwyd am dano ymhobman, ond y cwbl yn ofer. Anfonwyd i'r dafarn i edrych a oedd ef yno, ond nid oedd neb wedi ei weld yn unman.

Yna dechreuodd ei feistr ameu Llywelyn, a chredai rhai mai efe oedd wedi lladd Rhys. Ond tystiai Llywelyn nad oedd hynny'n wir.

'Dywedai ei fod yn clywed canu swynol,' meddai, 'a rhedodd i ganol y coed er mwyn cael dawnsio.'

'A glywaist ti'r canu?' ebe ei feistr.

'Naddo,' ebe Llywelyn, 'a thybiwn mai esgus oedd ganddo er mwyn cael rhedeg i'r dafarn.'

Ond nid oedd neb yn fodlon ar ateb Llywelyn, ac o'r diwedd carcharwyd ef am lofruddio ei gyfaill. Tystiai ef o hyd ei fod yn ddiniwed, ac un diwrnod aeth rhai o'i gyfeillion at 'ŵr cyfarwydd' yn y pentre i ofyn ei gyngor.

'O,' ebe hwnnw, 'y Tylwyth Teg sydd wedi ei hudo. Rhaid i chwi fynd yno ymhen blwyddyn a diwrnod. Ewch yr un diwrnod a'r un amser ag y collwyd ef, ac fe'i gwelwch ef yn dawnsio gyda'r Tylwyth Teg.'

Ac ymhen y flwyddyn aeth nifer o bobl gyda Llywelyn i'r goedwig. Ac wedi cyrraedd i ymyl y lle, gwelent gylch o dan un o'r coed.

'Ust!' meddai Llywelyn, 'Gwrandewch! Clywaf ganu swynol. Clywaf sŵn telynau'n canu.'

A gwrandawodd pawb, ond nid oedd neb yn clywed y canu.

'Rho dy droed ar fy nhroed i Dafydd,' ebe Llywelyn wrth un o honynt.

Yr oedd troed Llywelyn ar ymyl cylch y Tylwyth Teg pan oedd yn siarad, a phan roddodd Dafydd ei droed yno clywai yntau'r canu. Yna rhoddodd y lleill eu traed yno y naill ar ôl y llall, ac yn awr clywai pawb y canu. Ac yng nghanol y cylch gwelent nifer o bobl yn dawnsio. Yr oeddynt yn hynod o fychain, ac yn eu canol yr oedd Rhys yn dawnsio mor chwim a hwythau. A phan oedd yn mynd heibio iddo gafaelodd Llywelyn yn ei gôt a thynnodd ef allan â'i holl nerth.

'Gâd i mi orffen dawnsio,' ebe Rhys. ''Does dim pum munud er pan ddechreuais i.'

'Pum munud wir,' ebe Llywelyn, 'Bu bron i mi gael fy nghrogi o'th achos. Tyrd adre'n awr i ddweyd dy hanes.'

A gorfodwyd ef i fynd adref. Ond er iddynt ei holi nid oedd yn gwybod dim o hanes y bobl oedd yn dawnsio gydag ef. Dywedai nad oedd wedi mwynhau ei hun cystal erioed, ac yr oedd am fynd yn ôl atynt eilwaith. Ac ni fu llawer o drefn arno ar ôl hyn. Yr oedd yn brudd a digalon iawn, a bu farw cyn pen llawer o ddyddiau.

XI

LLYN TEGID

YN yr hen amser yr oedd tref hardd yn y fan y saif Llyn Tegid neu Lyn y Bala. Ac yn y dref honno yr oedd amryw o blasau gwychion. Yn y plasau yr oedd brenhinoedd a thywysogion yn byw, ac nid oedd plasau tecach na'r rhain yn unman. Yr oedd eu tyrau yn ugeiniau o droedfeddi o uchter.

Yng nghanol y dref yr oedd ffynnon fechan o'r enw Ffynnon Gywer. Yr oedd hon bob amser yn llawn o ddŵr gloyw, a rhoddid caead arni bob nos rhag i'r dŵr redeg allan o honi a boddi'r dref.

Yn un o'r plasau godidog hynny yr oedd tywysog creulon yn byw. Yr oedd hwn yn galed iawn wrth y tlodion yn yr ardal ac yn gorthrymu pawb o'i gwmpas. Ac o dro i dro yr oedd wedi lladd llawer o bobl ddiniwed.

Un noswaith dawel pan oedd yn rhodio yn ei ardd, ac yn mwynhau ei hun, clywai lais isel yn sisial: 'Dial a ddaw, dial a ddaw, dial a ddaw.'

Ond ni chymerodd ef unrhyw sylw; dim ond chwerthin a gwawdio popeth fel arfer.

Ymhen ychydig ar ôl hyn gwnaed gwledd fawr yn y plas. Gwledd oedd hon ar enedigaeth ei fab cyntaf, ac yr oedd llu mawr wedi dyfod yno. Yr oedd yno frenhinoedd a brenhinesau; tywysogion a thywysogesau, arglwyddi ac arglwyddesau. Ni fu yno y fath wledd

â hon erioed; digon o ddanteithion a digon o win melys. Ac er mwyn cael canu a dawnsio yr oedd y tywysog wedi gofyn i hen delynor o'r ardal ddyfod yno gyda'i delyn. Ni fu y fath lawenydd yn un man erioed, ac aeth y wledd ymlaen am oriau.

Tua hanner nos darfu'r dawnsio, ac aeth yr hen delynor i eistedd i gornel yr ystafell ar ei ben ei hun. Cyn bo hir clywai lais yn sibrwd yn ei glust: 'Daw dial, daw dial, daw dial!'

Trôdd yntau ar unwaith, ac wele aderyn bychan yn hofran uwch ei ben, ac yn amneidio arno i'w ddilyn. Aeth yntau ar ei ôl ar unwaith.

Wedi mynd allan o'r plas dechreuodd yr hen delynor betruso. Ond daliai'r aderyn i ganu mewn llais lleddf a thrist: 'Daw dial, daw dial, daw dial!'

Yr oedd ychydig ofn ar yr hen delynor yn awr a brysiodd i ddilyn yr aderyn. Ac ymaith â hwy drwy gorsydd, gwrychoedd a llwyni. Ehedai'r aderyn o'i flaen gan ei arwain ar hyd y llwybrau hawsaf. Ac os safai'r telynor am eiliad clywai lais yr aderyn yn sibrwd ganu: 'Daw dial, daw dial, daw dial!'

O'r diwedd cyrhaeddasant ben y mynydd rai milltiroedd oddiwrth y plas. Yr oedd yr hen delynor wedi blino'n awr, a safodd unwaith yn rhagor. Ac er ei syndod ni chlywai lais yr aderyn mwyach. A chan fod eisiau gorffwyso arno, eisteddodd i lawr ar ymyl carreg fawr. Gwrandawodd yn astud eto, ond ni chlywai ddim byd ond sŵn yr afonig yn llithro dros lethr y mynydd. Gwrandawodd drachefn, ond nid oedd llais yr aderyn i'w glywed o gwbl.

'Oni fum yn ffol,' meddai, 'yn cymryd fy nhwyllo fel yna. Mae'n sicr mai dychymyg oedd y cwbl. Fe âf yn ôl i'r wledd eto.'

Yna trôdd yn ei ôl, ond wrth grwydro ar hyd y mynydd collodd ei ffordd, a gorfu iddo orwedd dan gysgod craig nes i'r wawr dorri.

Bore drannoeth pan edrychodd i gyfeiriad y plas nid oedd dim golwg o hono yn unman. Yr oedd y dyffryn, lle'r oedd y plas, yn llyn o ddŵr tawel, a'i delyn yntau'n nofio ar ei wyneb.

XII

PALI GLAN TEIFI

Er's llawer blwyddyn yn ôl yr oedd hen wraig o'r enw Pali yn byw mewn bwthyn bychan ar lan yr afon Teifi. Yr oedd ei bwthyn mewn lle unig iawn, ac anaml y byddai neb yn galw i'w gweld. Ond ambell dro deuai'r Tylwyth Teg yno i chwilio am fenthyg rhywbeth neu'i gilydd, ac ni fyddai Pali byth yn gwrthod rhoddi dim.

Un tro deuthant ati i ofyn iddi ddyfod gyda hwynt i weini ar un o frenhinesau'r Tylwyth Teg ar enedigaeth plentyn.

'Os gwrthodaf fynd', ebe Pali, 'efallai mai dial arnaf a wnant', ac aeth ar unwaith.

Ac wedi iddi gyrraedd i wlad y Tylwyth Teg arweiniwyd hi i blas mawr hardd. Yn hwn yr oedd y frenhines yn byw, a dyma'r plas harddaf a welsai Pali erioed. Yr oedd y llawr yn aur drosto, a dodrefn arian neu wydr ymhob ystafell yno. Yr oedd y frenhines a'i baban mewn gwely hardd iawn a dillad cyn wynned â'r eira arno.

Ond er ei syndod nid oedd Pali byth yn gweld neb yno ond y frenhines a'i baban bach. Yr oedd rhywun yn gosod digon o fwyd ar fwrdd arian yn ymyl y gwely bob dydd. Gosodid hefyd ffrwythau melys, dillad costus, a llawer o degannau heirdd ar fwrdd arall. Ond nid oedd Pali yn gwybod pwy oedd yn cludo'r pethau hyn yno bob dydd. Gwneid y cwbl yn ddistaw a dirgel hollol.

Gwraig dyner, dawel, ac addfwyn oedd y frenhines, ac yr oedd y baban hefyd yn dawel a diddig iawn. Nid oedd baban bach tlysach na glanach i'w ganfod yn unman. Nid oedd byth yn llefain, ac edrychai'n siriol bob amser.

Bob nos a bore byddai Pali'n golchi'r baban, ac yn ei iro ag eli a gawsai gan y frenhines.

'Rhaid i chwi beidio cyffwrdd â'r eli ond â'ch llaw,' ebe'r frenhines wrthi y dydd cyntaf yr aeth hi yno. 'A chofiwch beidio rhoi dim o hono yn agos i'ch llygaid.'

A bu Pali yno am ddyddiau lawer yn gweini ar y frenhines a'r baban. Byddai'n gweld pethau rhyfedd iawn yno weithiau, ond ni fyddai byth yn gofyn dim byd yn eu cylch.

Un diwrnod wedi iddi orffen iro'r baban dechreuodd ei llygaid gosi, a rhwbiodd hithau hwynt heb olchi ei dwylo. Ond cyn gynted ag y gwnaeth hynny, gwelodd y rhyfeddodau mwyaf a welsai erioed. Gwelai fod yno gannoedd o wŷr a gwragedd bychain yn cerdded yn ôl a blaen drwy'r plas. Yr oedd pob un yn gweithio â'i holl egni, a phob un yn symud drwy'r ystafell mor ysgafn ag awel y bore.

Yr oedd llawer o honynt yn glanhau'r ystafell, ond y rhan fwyaf yn darparu pethau i'r frenhines a'r baban. Ni welodd Pali neb erioed mor brysur nac mor ddeheuig, a phob un am y goreu i wneud rhyw garedigrwydd i'r frenhines a'i phlentyn. Deallai Pali'n awr pwy oedd yn gosod y bwyd a'r tegannau ar y byrddau. A bu yn eu gwylio am ddiwrnod cyfan heb yngan gair wrth y frenhines, ac yn rhyfeddu at bopeth a welai.

Yn yr hwyr y noson honno, heb feddwl dim drwg, dywedodd Pali wrth y frenhines:

'Y mae llawer wedi galw yma i'ch gweled heddyw, onid oes?'

'Sut y gwyddoch chwi hynny?' ebe hithau'n gyffrous. 'A roesoch chwi'r eli ar eich llygaid?'

Ac ar hynny neidiodd o'i gwely a chwythodd ar ei llygaid.

'Yn awr,' ebe hi, 'ni welwch chwi ddim rhagor.'

Ac yn y fan diflannodd y cwbl o olwg Pali, ac ni welodd hi mo'r Tylwyth Teg byth ar ôl hynny.

XIII

SION SIENCYN

Yn yr hen amser byddai llawer iawn o'r Tylwyth Teg i'w gweld ym Mhant Sion Siencyn yn Sir Gaerfyrddin. Un bore braf yn yr haf yr oedd dyn ieuanc yn cerdded drwy Bant Sion Siencyn ar ei ffordd at ei waith. Ac heb fod ymhell o'i lwybr yr oedd coeden fawr a dyfai yno er's oesau. A'r bore hwnnw clywai'r gŵr ieuanc ryw aderyn yn canu'n swynol iawn yn yr hen goeden. Nid oedd wedi clywed y fath fiwsig erioed, ac wedi gwrando ychydig aeth at y goeden.

'Wel, wel,' meddai wrtho'i hun, 'ni fu'r fath ganu â hwn erioed. Fe arhosaf yma nes iddo dewi beth bynnag.'

Ac wedi i'r aderyn orffen canu, cododd ac aeth yn ei flaen. Credai ef nad oedd wedi bod yno ond ychydig funudau. Ond pan edrychodd i fyny gwelai fod yr hen goeden wedi crino.

'Pan eisteddais i yma,' meddai, 'yr oedd yn wyrdd ac yn llawn o ddail. Beth sydd wedi digwydd iddi tybed?'

Ac yn lle mynd yn ei flaen penderfynodd fynd adref yn ôl. Ond wedi cyrraedd y tŷ synnwyd ef yn fwy fyth. Yn lle'r tŷ a adwaenai ef, gwelai hen dŷ yno wedi ei orchuddio ag eiddew. O flaen y drws safai hen ŵr crynedig, ac nid oedd ef yn ei adnabod.

'Wel, beth sydd arnoch chwi eisiau heddyw,' ebe'r hen ŵr wrtho.

'Beth sydd arnaf eisiau yma!' ebe yntau'n ffromllyd. 'Pwy wyt ti i'm rhwystro i ddod i mewn i'm tŷ fy hun?'

'Dy dŷ dy hun, wir,' ebe'r llall. 'Beth sy'n bod? Yr wyt wedi colli dy synnwyr neu rhywbeth.'

'Ble mae fy nhad a mam?' ebe yntau drachefn: 'Dim ond rhyw hanner awr yn ôl y gadewais y tŷ. Bum yn gwrando ar fiwsig peraidd o dan yr hen goeden fawr am ryw ychydig. Ond pan godais i fynd yr oedd yr hen goeden wedi gwywo.'

'Wedi gwywo! O dan y goeden! Miwsig!!' ebe'r llall. 'Beth yw dy enw? O ble y deuthost ti yma?'

'Sion Siencyn yw fy enw', ebe yntau, 'ac yn y tŷ yma yr oeddwn yn byw rhyw hanner awr yn ôl.'

'Wel, wel', ebe'r llall, 'a dyma chwi wedi dychwelyd o'r diwedd. Eich nai ydwyf fi. Ble yn y byd mawr yr ydych wedi bod. Dywedwch eich hanes.'

Edrychai Sion yn syn a gwelw, ac ni fedrai ddweyd dim ond,—'Miwsig!' ac 'O dan y goeden!'

'Mi glywais fy nhaid yn sôn am danoch,' ebe'r hen ŵr wedyn. 'Cwynai lawer ar eich ôl. Chwiliwyd llawer am danoch, ond y cwbl yn ofer. Wedi iddynt eich colli aeth fy nhaid at yr hen Gadi Madog. Dywedodd yr hen Gadi eich bod wedi eich hudo gan y Tylwyth Teg, ac na chawsech ddod yn rhydd hyd nes y byddai'r hen goeden fawr wedi gwywo.'

Yna gafaelodd yn ei law ac arweiniodd ef i'r tŷ. Ond wedi iddo gerdded cam neu ddau yn ei flaen, syrthiodd Sion i lawr ar riniog y drws, a diflannodd o'i olwg fel cawod o lwch.

XIV

Y GIST AUR

Yn yr hen amser yr oedd gwehydd yn byw mewn lle o'r enw Llurig heb fod ymhell o Bentrefoelas. Dafydd oedd ei enw, a Dafydd y Gwehydd fyddai pawb yn ei alw.

Un tro wrth fynd dros y mynydd i'r Bala cyfarfu ddau o'r Tylwyth Teg, ac meddai un o honynt wrtho:

'Dilyn ni ac fe ddanghoswn i ti y Gist Aur, a thi fydd biau'r aur sydd ynddi, ond i ti ei chario adref.'

Dyn tlawd oedd Dafydd ac yr oedd yn awyddus iawn i gael yr aur, ac yn lle mynd yn ei flaen i'r Bala aeth ar eu holau. Wedi cerdded am rai milltiroedd dros ochr y mynydd, deuthant i gwm cul mewn lle dirgel yr ochr arall i'r mynydd.

Wedi cyrraedd pen draw y cwm deuthant at y gist, ac yr oedd ei llond o aur. Nid oedd neb erioed wedi gweld hon o'r blaen, ac yr oedd Dafydd wrth ei fodd yn awr.

'Ni fydd raid i mi weu byth eto,' meddai wrtho'i hun. Ond yr oedd mewn penbleth fawr sut i gario'r aur adref. Yr oedd y gist yn rhy drom iddo fedru ei chario ei hunan, ac yr oedd yn rhaid iddo gymryd meddiant o honi ar unwaith.

'Fe wn beth a wnaf,' meddai, 'fe blannaf fy ffon yng nghanol yr aur,' a gwthiodd ei ffon ar ei phen i'w ganol.

Yna aeth adref i ddweyd yr hanes wrth ei wraig. Ond wedi gadael y gist edrychodd yn ôl droeon er mwyn bod yn sicr ei bod yno o hyd. A chan gredu ei bod yn hollol ddiogel, brysiodd adref gyda'r newydd da.

Y GIST AUR

Wedi cyrraedd y tŷ adroddodd yr hanes wrth ei wraig, ac yr oedd hithau cyn falched ag yntau. Ond yn anffodus yr oedd yn rhy hwyr i fynd yn ôl i gyrchu'r aur y noson honno.

'Fe awn i nôl yr aur bore yfory,' ebe Dafydd wrth ei wraig. 'A chofia beidio yngan gair yn ei gylch wrth neb heno. Os gwnei di, fe fyddwn yn sicr o ddigio'r Tylwyth Teg, a cholli'r aur.'

Ac addawodd hithau gadw'r peth yn ddistaw tan drannoeth. Ond er hynny i gyd yr oedd hi'n awyddus iawn i ddweyd wrth wraig Sam y Felin am yr aur oedd Dafydd wedi gael. A phan aeth Dafydd allan o'r tŷ, rhedodd i'r Felin, ac adroddodd yr hanes wrth wraig y Felin. Yna aeth adre'n ôl, ond ni soniodd ddim gair wrth Dafydd iddi fod yn y Felin.

Bu'r ddau'n eistedd wrth y tân am oriau'r noson honno, yn siarad am y ffortiwn ac yn trafod eu dyfodol. A chan iddynt fynd i'r gwely'n hwyr, yr oedd yn hwyr cyn iddynt godi drannoeth. Ond wedi codi brysiodd y ddau i'r cwm lle'r oedd Dafydd wedi gadael y gist aur, ac erbyn iddynt gyrraedd yno yr oedd y gist a'r ffon wedi diflannu. A gorfu i'r ddau ddyfod adre'n ôl wedi eu siomi'n fawr.

Ni soniodd yr un o'r ddau ddim gair wrth Sam y Felin am hyn. Ond un cyfrwys oedd Sam, ac ymhen rhai wythnosau yr oedd yn amlwg i bawb mai i'r Felin yr oedd y Gist Aur wedi mynd. Yr oedd gan Sam ddigon o arian yn awr.

Yr oedd ef a'i wraig wedi codi'n fore iawn ac wedi cario'r Gist Aur i'r Felin cyn i Dafydd a'i wraig gychwyn o'r Llurig. Ac er na ddywedodd hi air byth am y peth, gwyddai gwraig Dafydd yn eithaf da mai hi oedd yr achos iddynt golli'r Gist Aur.

XV

HEN WRAIG HAFOD RUGOG

FFERMDY bychan oedd Hafod Rugog mewn cwm anial ac unig. Nid oedd yno ond rhyw ddwsin o dai, ond yn y creigiau ar lethrau'r cwm yr oedd amryw o dyllau lle y byddai'r Tylwyth Teg yn byw.

Anaml iawn y byddai neb yn gweld y Tylwyth Teg, ond weithiau aent i'r tai i chwilio am fenthyg rhywbeth neu'i gilydd. Ambell dro benthyg blawd fyddai eisiau; dro arall, llaeth neu ymenyn. Yn aml iawn byddent yn benthyca padell a gradell i grasu bara, ac yn dâl am gael benthyg fel hyn, byddent yn gadael arian ar y cerrig.

I Hafod Rugog y byddent yn mynd y rhan amlaf i fenthyca. Ac os byth y gwnai'r hen wraig nacàu, byddent yn sicr o ladrata rhywbeth; neu ynte fynd i'r cae a godro'r gwartheg yn lân erbyn y bore.

Un noson ym mis Mehefin deuthant i lawr i Hafod Rugog i fenthyca bara, ac meddai'r hen wraig wrthynt:

'Cewch ar un waith, ond i chwi addaw dau beth i mi.'

'Beth yw hynny?' ebe un o honynt.

'Fod i'r peth cyntaf y rhoddaf fy llaw arno wrth ddrws y tŷ, dorri; ac hefyd, fod i'r peth cyntaf a gyffyrddaf wedi mynd i'r tŷ, estyn hanner llâth,' ebe hithau.

Ac er mwyn cael y bara addawodd y Tylwyth Teg roddi iddi ei dymuniad.

Yn ymyl drws Hafod Rugog yr oedd carreg fawr ym mur y tŷ, a chan ei bod ar ei ffordd i fynd a dod i'r tŷ yr oedd ar yr hen wraig eisiau ei symud. Ac ar

y garreg honno yr oedd ganddi ddefnydd syrcyn gwlanen; a chan fod hwnnw hanner llath yn rhy fyr yr oedd am ei estyn.

Y diwrnod hwnnw, wedi i'r Tylwyth Teg ymadael, aeth yr hen wraig yn ôl at ei gwaith. Cario mawn i'r tŷ yr oedd, a chawell trwm ganddi ar ei chefn. A phan oedd hi wrth ddrws y tŷ llithrodd ar y cerrig, a bu bron iddi syrthio ar ei hyd. Ac er mwyn arbed y cawell rhoddodd ei llaw ar ben ei chlun, ac yn y fan fe dorrodd ei chlun.

Yna llusgodd yn araf i'r tŷ mewn poen mawr. Ac wedi mynd i mewn, digwyddodd roddi ei llaw ar ei thrwyn, ac yn y fan fe estynnodd ei thrwyn hanner llath.

XVI

Y GORS GOCH

Un noswaith, wedi mynd i'w gwely, clywai teulu'r Gors Goch ryw sŵn rhyfedd o amgylch y tŷ. Yr oedd pawb yn methu gwybod beth oedd yn gwneud y fath sŵn a hithau mor hwyr. Deffrodd y gŵr a'r wraig, a chyn bo hir deffrôdd y plant hefyd. Ond ni fedrent ddweyd yr un gair. Yr oedd eu tafodau wedi glynu yn nhaflod eu genau.

O'r diwedd cododd y gŵr a gwaeddodd:

'Pwy sydd yna? Beth sydd arnoch eisiau?'

A dyna lais main oddiallan yn ateb:

'Eisiau lle cynnes i wisgo am y plant.'

Agorodd yntau y drws, a dyna hanner llond y tŷ o Dylwyth Teg yn dyfod i mewn. A dechreuasant chwilio am badell a dŵr i olchi'r plant. Yna wedi gwisgo am danynt eilwaith, dechreuasant ganu a dawnsio; ac yno y buont dan y bore. A phan dorrodd y wawr aethant ymaith gan adael swm o arian ar y pentan.

Ar ôl hyn deuthant yno'n fynych iawn, a byddent bob amser yn gadael arian ar yr aelwyd yn dâl am eu llety. Ond un tro yr oedd y wraig wedi gadael ei baban bach yn y tŷ yn ei grud. Yr oedd hwn yn blentyn bach tlws a rhadlon, ac yn annwyl iawn gan ei fam. A chan nad oedd wedi ei fedyddio newidiodd y Tylwyth Teg ef, gan adael un o'u plant hwy yn ei le. Creadur bach hyll ac anniddig oedd hwn, ac yr oedd

yn llefain ac yn ysgrechian drwy'r dydd. Ac er ei fod yn bwyta llawer nid oedd yn tyfu dim.

Yr oedd y fam druan bron a thorri ei chalon, ond yr oedd arni ofn dweyd dim wrth neb. Gwyddai pawb er hynny fod rhywbeth wedi digwydd i blentyn y Gors Goch. Cyn hir bu'r fam druan farw o hiraeth am ei phlentyn, ac yn fuan iawn bu farw'r plant eraill o hiraeth ar ei hôl.

Yn awr nid oedd neb yn y Gors Goch ond y gŵr a'r ellyll bychan. Yn fuan iawn wedi marw'r fam, dechreuodd y Tylwyth Teg ddod yno eilwaith i wisgo am eu plant yn y nos. Ac yn awr yr oeddynt yn gadael swm o aur yn lle arian ar y pentan.

Ymhen amser daeth plentyn y Tylwyth Teg yn aer y Gors Goch ac yn gyfoethog iawn. Efe oedd un o ffermwyr cyfoethocaf Gogledd Cymru. A thyna paham y dywedai'r hen bobl:

'Fe ddaw gwiddon yn fawr ond ei bedoli ag aur.'

XVII

IANTO

Yr oedd Ianto a'i wraig yn byw mewn bwthyn bychan ar ochr y mynydd yn Sir Benfro. Nid oedd Ianto yn hoff iawn o weithio, ac felly yr oedd yn bur dlawd. Ond er hynny i gyd yr oedd yn hynod o garedig.

Ni fyddai byth yn diffodd y tân yn y nos, ond gadawai iddo gynneu er mwyn i'r Tylwyth Teg gael ymdwymno wrtho. Ac yn y gaeaf, pan fyddai'n oer iawn, byddent yn mynd i gegin Ianto wedi iddo ef a'i wraig fynd i gysgu.

Un noson oer iawn deuthant yno fel arfer, a chlywodd Ianto un o honynt yn dweyd:

'O! fe hoffwn gael tamaid o fara a chaws i'w fwyta. Ond nid oes gan Ianto druan ddim ond rhyw damaid bach yn y cwpwrdd.'

A phan glywodd Ianto hyn, gwaeddodd:

'Y mae croeso i chwi ar beth sydd yn y cwpwrdd.'

Ac yna aeth i gysgu.

Bore drannoeth, wedi iddo godi, aeth Ianto i'r cwpwrdd i chwilio am grystyn. Ac wedi iddo ei agor gwelai yno gosyn mawr crwn, a dwy dorth ar ei ben.

Yna tynnodd y bara a'r caws allan a dechreuodd wneud brecwast. A phan aeth i wneud tân gwelai swllt ar y pentan.

'Wel, wel!' ebe Ianto, 'dyma lwc dda. Nid oes angen i mi fynd i weithio'n awr.'

A bore drannoeth wedyn, pan gododd, yr oedd swllt

ar y pentan. Ac yn awr gallai Ianto fyw heb weithio dim.

Yr oedd ef a'i wraig yn cael digon o bopeth, ac yn byw'n hapus iawn. Ond ni wyddai Beti ei wraig o ble'r oedd yr arian yn dod, ac yr oedd hi'n ei boeni bob dydd eisiau gwybod.

'Os dywedaf wrthyt,' ebe Ianto, 'ni chaf geiniog arall.'

'O,' ebe hithau, 'Yr hen Dylwyth Teg sy'n rhoi'r sylltau i ti.'

'Wel, wel!' ebe Ianto. 'Sut yr oeddit ti'n gwybod?'

Yna rhoddodd ei law yn ei boced, ac er ei syndod nid oedd yno ddim un swllt ynddi. Nid oedd y sylltau oedd ganddo yn ddim ond darnau o bapur. Ac ni chafodd Ianto druan ddim arian gan y Tylwyth Teg byth wedyn.



MARCH AMHEIRCHION

XVIII

MARCH AMHEIRCHION

ARGLWYDD Castellmarch yn Llŷn ydoedd March Amheirchion. Yr oedd hefyd yn un o ryfelwyr y Brenin Arthur, ac yn ŵr cyfoethog iawn. Yr oedd yn berchen llawer o diroedd ac anifeiliaid, aur, arian, a thrysorau gwerthfawr. Ond er hynny i gyd nid oedd yn hapus. Yr oedd ganddo un peth oedd yn peri gofid mawr iddo, ac ofnai beunydd i'w gyfeillion wybod am y peth. Yr *oedd ganddo glustiau ceffyl!*

Gan nad oedd am i neb wybod am hyn, cuddiai ei glustiau rhag i neb eu gweld. Am amser maith llwyddodd i gadw ei gyfrinach rhag pawb ond y sawl fyddai'n torri ei wallt. A rhag i'r rheiny ddweyd y gyfrinach wrth eraill, yr oedd yn lladd pob un fyddai'n mynd yno i dorri ei wallt. Yna claddai'r cyrff yn nhir Castellmarch, ac ymhen amser tyfodd llwyn o gyrs cryfion yn y fan honno.

Un diwrnod yr oedd March wedi paratoi gwledd fawr yng Nghastellmarch, ac wedi gwahodd llawer o'i gyfeillion yno. Yr oedd hefyd wedi galw pibydd enwog yno i ganu ei bib.

Ar ei ffordd i'r wledd sylwodd y pibydd ar y cyrs ardderchog oedd yn y llwyn, a thorrodd un o honynt i wneud pib. Ac erbyn cyrraedd yno yr oedd wedi gwneud pib newydd ardderchog.

Wedi i bawb orffen bwyta ac yfed gorchmynnodd March i'r pibydd ddechreu canu. Ond pan ddechreuodd chwythu i'r bib, ni ddeuai dim sŵn o honi ond:

'Y mae clustiau march gan March Amheirchion!'

Pan glywodd March hyn tynnodd ei gleddyf i ladd y pibydd. Gwaeddodd yntau am drugaredd gan ofyn iddo chwythu i'r bib ei hun. Yna cymerodd March y bib, ond ni ddeuai dim sŵn o honi ond:

'Y mae clustiau march gan March Amheirchion!'

'Pa le y cefaist ti'r bib yna?' ebe March.

A dywedodd y pibydd fod ei hen bib wedi ei gwisgo allan, a'i fod yntau wedi gwneud un newydd gyda chorsen o'r llwyn a dyfai yng nghae Castellmarch.

A deallodd March mai un o'r cyrs oedd wedi tyfu ar feddau'r rhai oedd ef wedi ladd ydoedd. Yna maddeuodd i'r pibydd, ac ni cheisiodd mwyach guddio ei glustiau.

XIX

Y MARCHLYN MAWR

YNG Ngogledd Cymru, rhwng Llandegai a Llanddeiniolen y mae'r Marchlyn Mawr. Y mae creigiau uchel o amgylch y llyn, ac yng nghanol y creigiau y mae ogof fawr.

Un tro yr oedd mab y Rhiwen wedi colli dafad, ac wrth chwilio am dani ymysg y creigiau ar fin y llyn daeth i'r ogof. Ac wedi mynd i mewn iddi, darganfu yno drysorau gwerthfawr ac arfau heirdd. Pan gyrhaeddodd y llanc yno yr oedd yn dechreu tywyllu, ac yr oedd dringo oddiyno yn waith anodd iawn hyd yn oed yn y dydd.

'Mae'n well i mi fynd adref heno,' ebe yntau, 'a dyfod yma eto bore yfory: fe fydd yn haws gweld y trysorau liw dydd.'

Ac adref yr aeth, ond ni soniodd air wrth neb am yr ogof.

Bore drannoeth, ar lasiad y dydd, cychwynnodd eilwaith i'r ogof; a daeth o hyd iddi heb lawer iawn o drafferth. Ac wedi mynd i mewn, gwelai y trysorau fel o'r blaen.

Ar ganol yr ogof yr oedd bwrdd enfawr o aur pur, ac ar y bwrdd yr oedd coron o aur, a llawer o berlau gwerthfawr. Deallodd y llanc ar unwaith mai coron a thrysorau'r Brenin Arthur oeddynt. Yna nesaodd at y bwrdd. Ond pan estynnodd ei law i afael yn y goron hardd, dyna drwst mawr megis mil o daranau'n rhwygo'r lle uwch ei ben. Ac aeth yr ogof cyn dywylled a'r fagddu.

Yr oedd y llanc wedi dychrynu'n awr, a rhedodd allan

cyn gynted ag y medrai. Wedi iddo gyrraedd i ben y creigiau edrychodd yn ôl, ac wele, yr oedd y llyn yn ferw drwyddo. Ac yr oedd y tonnau'n golchi'n wyn dros y creigiau hyd at ei draed.

Yna ar ganol y llyn gwelai gwrwgl, a thair o ferched hardd ynddo. Nid oedd erioed wedi gweld merched cyn hardded â'r rhain: yr oeddynt fel tair brenhines. Ond yr oedd golwg erchyll ac ofnadwy ar y gŵr a rwyfai'r cwrwgl. A phan welodd y llanc ef yn rhwyfo at enau'r ogof, rhedodd adref am ei fywyd. Ni fu ei iechyd yn dda byth ar ôl hyn, a byddai hyd yn oed crybwyll enw'r Marchlyn yn ddigon i'w yrru'n wallgof.

Cf. Y Cymmrodor 27 (1917), p. 126 sq.

XX

RHITA GAWR

UNWAITH yr oedd dau frenin ym Mhrydain, a'u henwau oedd Nynio a Pheibio. Un noson oleu-leuad yr oeddynt yn mynd am dro gyda'i gilydd, ac meddai Nynio wrth Peibio:

'Edrych ar y maes eang a theg sydd gennyf fi.'

'Ble mae ef?' ebe Peibio.

'Dacw fe', ebe Nynio, 'yr wybren glir i gyd.'

'A weli di'r miloedd o wartheg a defaid sydd gennyf fi'n pori yn dy faes di?' ebe Pheibio.

'Ble maent hwy?' ebe Nynio.

'Dacw hwynt,' ebe Peibio, 'y llu ser disglair acw a weli di, a'r lloer yn eu bugeilio.'

'Ni chânt hwy ddim pori yn fy maes i,' ebe Nynio.

'O, cânt,' ebe Peibio.

Ac fel hyn y dechreuodd y ddau ffraeo, nes o'r diwedd arwain i ryfel rhyngddynt. A lladdwyd llawer iawn o'u gwŷr yn y rhyfel.

Clywodd Rhita Gawr, brenin Cymru, am y rhyfel a'r difrod, ac ymosododd arnynt. Ac wedi gorchfygu'r ddau torrodd ymaith eu barfau. Yna clywodd yr wyth brenin ar hugain eraill am hyn, ac ymunodd y cwbl i ddial ar Rhita Gawr am dorri barfau'r ddau frenin. Ond gorchfygodd Rhita y rhain hefyd, a thorrodd eu barfau hwythau. Ac yn awr yr oedd barfau deg ar hugain o frenhinoedd ganddo.

Pan glywodd brenhinoedd y gwledydd cyfagos am hyn, casglasant eu byddinoedd at ei gilydd i ymosod ar

Rhita, i ddial y sarhad a wnaethai i'w cyfeillion. Y tro hwn bu rhyfel erchyll iawn, ond gorchfygodd Rhita Gawr drachefn.

'Dyma fy maes eang a theg innau,' ebe Rhita. 'A dyma'r anifeiliaid a borai fy maes i; ond mi a'i gyrrais hwynt allan oll, ac ni chânt bori yno mwyach.'

Yna gorchmynnodd dorri barfau y rhain hefyd, ac â'r barfau hyn i gyd gwnaeth fantell fawr iddo'i hun. Yr oedd Rhita Gawr gymaint â dau ddyn cyffredin, ond cyrhaeddai'r fantell o'i ben i'w sawdl.

Yna anfonodd Rhita gennad i lys Arthur i erchi iddo yntau hefyd dorri ei farf, a'i hanfon iddo i'w gosod ar y fantell. Ond pan glywodd Arthur hyn yr oedd yn ddig iawn.

'Myn fy nghledd!' ebe Arthur, 'fe gaiff Rhita farw am hyn.' A chasglodd Arthur ei fyddin ynghyd, a bu brwydr fawr rhyngddo a Rhita Gawr.

Bu'r ddau'n ymladd law yn llaw am amser maith. Ond o'r diwedd, cododd Arthur ei gleddyf anferth a tharawodd Rhita ar ei ben nes ei hollti yn ei hanner. Ac felly y bu farw Rhita Gawr, a chladdwyd ef ar ben y mynydd uchaf yn Eryri. Rhoddodd pob un o'i filwyr garreg ar ei fedd, a galwyd y mynydd hwnnw yn Wyddfa Rhita.

GEIRFA

Addaw, to promise.
addfwyn, gentle.
aer, heir.
agen, cleft.
angharedig, unkind.
anghofio, to forget.
alaw, air (in music).
ambell dro, sometimes.
amddifad, orphan.
ameu, to doubt.
amneidio, to beckon.
anferth, huge.
anffawd, misfortune.
anial, wild, uncultivated.
anniddig, peevish.
ardderchog, excellent.
arfau, armour.
arglwydd, lord.
arglwyddes, lady.
arwydd, sign.
astud, attentive.
awyddus, eager.

Barf, beard.
bedw, birch.
bedyddio, to baptize.
benthyca, to borrow.
benthyg, loan.
berw; yn ferw, boiling.
beunydd, daily.
blwch, box.
bodlon, content.
boddhau, to please.
boneddiges, lady.
boneddwr, gentleman.
bradychu, to betray.
breuddwydio, to dream.
brwynen; brwyn, rush; rushes.
brysio, to hasten.
buarth, farmyard.
bugail, shepherd.
bugeilio, to watch sheep.
bwa saeth, bow and arrow.
bwndel, bundle.
bwriadu, to intend; to purpose.

Caead, cover, lid.
canfu, he saw.
cann, white, flour.
caniatâd, permission.
canllaw, hand rail.
cannwyll, candle.
carlam, gallop.
cawell, hamper, basket.
cawr; cewri, giant; giants.
cellwair, joke, fun.
cenhedlaeth, generation.
cennad, messenger.
cesail, arm-pit.
cilfach, nook, creek.
cist, chest.
clun, hip, thigh.
corlan, sheepfold.
corrach, dwarf.
cors, bog.
corsen; cyrs, reed; reeds.
corun, crown of the head.
cosbi, to punish.
cosyn, a single cheese.
crafanc, talon, clutch.
creulon, cruel.
crib, comb.
croch, harsh, loud.
croeso, welcome.
crogi, to hang.
crud, cradle.
crwydro, to wander.
crwydryn, tramp.
crybwyll, to mention.
crystyn, crust.
cul, narrow.
cwrr, edge.
cwrw, beer.
cwrwgl, coracle.

cwyno, to complain.
cychwyn, to start.
cydio, to take hold of.
cydymdeimlo, to sympathize.
cyfagos, near, neighbouring.
cyfeiriad, direction.
cyfeirio, to direct.
cyfle, opportunity.
cyfleus, convenient.
cyflogi, to hire.
cyfraith, law.
cyfrinach, secret.
cyfrwys, cunning.
cyffro, stir, commotion.
cyffrous, exciting.
cyffwrdd, to meet, to touch.
cyngor, advice.
cyhyd, as long.
cylch, ring, circle.
cymdogion, neighbours.
cynhyddu, to increase.
cynllunio, to plan.
cynnil, thrifty, saving.
cyrchu, to fetch.

Chwaith, neither.
chwerw, bitter.
chwibanu, to whistle.
chwilen, beetle.
chwim, nimble.
chwith, left (hand).
chwythu, to blow.

Danteithion, dainties.
darganfu, he discovered.
darllaw, to brew.
darparu, to prepare.
dedwydd, happy.
defnydd, use.
defnyddio, to use.
deffro, to wake.
deheuig, skilful.
del, pretty, neat.
denu, to attract.
dial, vengeance.
diddig, contented.
difetha, to destroy.
diflannu, to disappear.
difrod, waste, desolation.
diffodd, to extinguish.
digalonni, to dishearten.
digwydd, to happen.
diniwed, innocent.
dirgel, secret.
dirmygus, contemptuous.
disglair, brilliant.
disgyn, to descend.
dodrefn, furniture.
drachefn, again.
drain, thorns.
drannoeth, the day after.
drysi, briars.
dychryn, terror.
dychrynu, to frighten.
dychwelyd, to return.
dychymyg, imagination.
dyfalu, to guess.
dyfeisio, to devise.
dyfodol, future.
dyrnaid, handful.

Eang, wide, immense.
ebol, colt.
edmygu, to admire.
efallai, perhaps.
egni, effort.
eiddew, ivy.
eiliad, a second.
eithin, furze.
eli, ointment.
ellyll, elf.
enfawr, huge.
enwedig, especial.
eos, nightingale.
erchi, to ask.
erchyll, horrible.
erfyn, to request.
esgus, excuse.
esmwyth, smooth.
etifedd, heir.

Fagddu, utter darkness.

Ffidil, fiddle.
ffyrchog, cloven, forked.
ffortiwn, fortune.
ffraeo, to quarrel.
ffromllyd, full of rage.

ffrwyn, bridle.
ffunud, yr un ffunud â, exactly like.
ffurfio, to form.

Gafael, to hold.
gafr; geifr, goat; goats.
gefell, gefeilliaid, twins.
genau, mouth.
genedigaeth, birth.
glasiad, ar lasiad y dydd, at daybreak.
gloyw, bright.
godidog, excellent.
gorchfygu, to overcome.
gorchudd, cover, veil.
gorchymyn, to command.
gorfodi, to compel.
gorthrymu, to oppress.
gradell, iron plate to bake bread upon.
grudd, cheek.
gwaedd, cry, shout.
gwaelod, bottom.
gwallgof, mad, insane.
gwdihŵ, owl.
gwehydd, weaver.
gwelw, pale.
gwiddon, witch.
gwledd, feast.
gwniad, seam.
gwraidd, roots.
gwr cyfarwydd, wizard.
gwrych, hedge-row.
gwyllt ineb, rage, fury.
gwywo, to wither.
gyrru, to drive.

Hagr, ugly.
hela, to hunt.
helwriaeth, game, hunting.
hiraeth, longing.
hofran, to hover.
holi, to question.
hollt, cleft.
hollti, to cleave.
hudlath, magician's wand.
hudo, to allure.
hwsmon, farm-bailiff.
hyll, ugly.

Iro, to anoint, to rub.

Llamu, to leap.
llanc, youth.
llannerch, open space.
llawenydd, joy.
lleddf, gentle, soft.
llethrau, slopes.
lliain, linen, cloth.
llinyn, string.
llithro, to slide; to slip.
llofruddio, to murder.
lludw, ashes.
llusgo, to drag.
llwch, dust.
llwybr, path.
llwyn, grove.
llwynog, fox.
llwyr, utter, complete.

Maddeu, to forgive.
mantell, mantle.
march, horse.
melltith, curse.
mesen, acorn.
modrwyog, ringed, curly.
môr-forwyn, mermaid.
mwmian, to hum.
mymryn, bit, particle.
Myn fy Nghledd! By my Sword!

Neuadd, hall.
niwl, mist.

Oesau, ages.
offeryn, instrument.
ogof, cave.

Padell, pan.
pastwn, cudgel.
pedoli, to shoe.
pelydrau, rays.
penbleth, perplexity.
pencerdd, chief musician.
pentan, hob.
pentwr, heap.
peraidd, sweet.

petruso, to hesitate.
pib, pipe.
pibydd, piper.
plisgyn, shell.
pompren, plank bridge.
pryderu, to be anxious.
pryf tân, glow-worm.
pwyth, stitch.

Rhadlon, genial, kind.
rhieni, parents.
rhiniog, threshold.
rhuo, to roar.
rhuthro, to rush.
rhwbio, to rub.
rhwyd, net.
rhwygo, to tear.
rhwystro, to hinder.
rhybuddio, to warn.

Sawdl, heel.
selog, zealous.
sibrwd, whisper.
siomi, to disappoint.
siriol, cheerful.
sisial, to whisper.
sôn, rumour.
soniodd, he mentioned.
swta, curt.
swyno, to charm.
syllu, to gaze.
symudiadau, movements.
syndod, amazement.
synnu, to be amazed.
synnwyr, sense.
syrcyn, jerkin.

Taer, importunate.
taflod eu genau, palate.
talcen, forehead.
taldra, tallness.
tamaid, morsel.
tegan, toy.
traddodiad, tradition.
trafod, to discuss.
trafferth, trouble.
treiglo, to roll.
treulio, to wear; to spend.
troedfeddi, inches.
trugaredd, mercy.
trwst, noise.
twyllo, to deceive.
tycio, to avail.
tynged, destiny.
Tylwyth Teg, Fairies.
tyrau, towers.
tystio, to testify.
tywarchen, sod; turf.

Ufuddhau, to obey.

Weithiau, sometimes.
wybren, sky.

Ymdwymno, to warm oneself.
ymgripiodd, he crawled.
ysbaid, space (of time).
ysgafn, light (in weight).
ysgrechian, to scream.
ystyr, meaning.

Printed in England at the Oxford University Press

0 6101

0. 6101.